Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2023

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Casgliadau ac Argymhellion ..... 5**

**1. Cyflwyniad ..... 9**

**2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 ..... 11**

**3. Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ..... 34**

**4. Cynllun Blynyddol 2023-24 ac Adroddiad Interim 2022-23 ..... 37**

**5. Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025 ..... 44**

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ..... 71**

**Atodiad B: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ..... 72**

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23;
- Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023;
- Cynllun Blynyddol 2023-24;
- Adroddiad Interim - Asesiad o’r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. ........................................................................ Tudalen 10

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi manylion am sut y mae'n gwerthuso'r camau a gymerir i wella perfformiad mewn perthynas ag ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad y gweithwyr. ......................... Tudalen 32

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu gwybodaeth am yr adborth a gafwyd gan staff am adleoli ei swyddfa yng Nghaerdydd a sut y cafodd y newid hwnnw ei reoli. ................................................ Tudalen 32

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am ganlyniadau ei strategaeth lles staff, gan gynnwys pryd y mae’n disgwyl i effaith y strategaeth gael ei hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r arolwg staff. ........................................................................................................................................ Tudalen 32

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi manylion am sut y mae'n bwriadu cofnodi adborth rhanddeiliaid er mwyn sicrhau cymhariaeth ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu mwy o wybodaeth am  canlynol:

- sut y mae'n ailflaenoriaethu adnoddau'n fewnol i fodloni ei derfynau amser statudol yn y tymor byr;

- yr hyn y mae'n ei wneud yn y tymor hir i oresgyn risgiau strategol methu terfynau amser statudol a achosir gan bryderon adnoddau a staffio;
- cynnydd wrth weithredu safonau ansawdd archwilio newydd a sut y mae'n cael ei asesu. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am gyfraddau trosiant staff a sut y maent yn cymharu o flwyddyn i flwyddyn. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu am yr adolygiad o gynllun hyfforddeion Archwilio Cymru a'i effaith ar gynllunio'r gweithlu. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn esbonio pam y mae wedi dychwelyd cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol i Gronfa Gyfunol Cymru ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y mae lefelau uchel o drosiant staff yn ei chael ar ei allu i fodloni terfynau amser statudol ar gyfer gwaith archwilio a'r hyn y mae'n ei wneud i liniaru'r heriu hyn ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- y gweithgareddau y mae'n eu gwneud i wella lles staff a sut yr adlewyrchir hyn yn yr arolwg staff;
- sut y mae'n darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i staff;
- sut y mae ei arolwg staff newydd yn cymharu â'r dull gweithredu blaenorol, a oedd yn defnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn newid cyflwyniad Amcangyfrifon yn y dyfodol er mwyn egluro cyfanswm gwerth cyllid Cronfa Gyfunol Cymru a gwerth newidiadau i'r cyllid hwnnw drwy wneud y canlynol:

- rhoi manylion am gynnydd a gostyngiadau mewn llinellau cyllideb ar wahân;

- pennu'r maes cyllideb y mae newidiadau'n ymwneud ag ef a'r rhesymau dros y newid;
- egluro'r rhaniad rhwng y gwaith a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru a'r gwaith a ariennir o ffioedd. ........ Tudalen 68

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi gwybodaeth am y £522,000 ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod yn Arddangosyn 1 o'i wybodaeth ategol ac mae'n cynnwys dadansoddiad o'r ffigur hwn yn elfennau cyfansoddol o'i Amcangyfrif. ........Tudalen 68

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau bod cyllid ar gyfer dadfeiliadau yn 2023-24 yn daliad untro a'i fod yn rhoi rhagor o wybodaeth am ryngweithiad y newid o flwyddyn i flwyddyn â symudiadau mewn cyfalaf gweithio a'r newid cyffrediol yn y newid o flwyddyn i flwyddyn i gyfanswm y cyllid sydd i'w ddarparu o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gyfeirio'n benodol at y tabl "Cyllideb refeniw 2024-25" yn yr atodiadau i'w wybodaeth ategol. ........Tudalen 68

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cynnwys rhagor o wybodaeth am symudiadau mewn cyfalaf gweithio mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol, gan gynnwys nodi eu diben a'r hyn y mae pob symudiad yn ymwneud ag ef. ........Tudalen 69

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2024-25 a'i fod hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylion ym mhob Amcangyfrif yn y dyfodol. ........Tudalen 69

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y darperir rhagor o wybodaeth i esbonio sut y mae arian parod sy'n gysylltiedig â'r cyfnod di-rent ar gyfer ei swyddfa newydd yng Nghaerdydd yn cael ei ddefnyddio yn 2024-25, ac i roi sicrwydd na fydd cais am gynnydd mewn arianparod sy'n gysylltiedig â'r cyfnod di-rent yn dod i ben........Tudalen 69

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu gwybodaeth am gostau a buddion terfynol y newidiadau i'w Lwfans Teithio, gan gynnwys cyfanswm costau gweithredu'r newidiadau; y costau/arbedion sy'n gysylltiedig â threfniadau adnewyddu; a'r costau/arbedion s'n gysylltiedig â newidiadau cysylltiedig eraill megis codiad yng nghyflogau staff. ........Tudalen 69

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn parhau i geisio ffyrdd o reoli'r codiadau cyflog y mae'n cynnig eu dyfarnu i staff o fewn ei gyllideb bresennol. ........Tudalen 69

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y canlynol:

- sut y bydd y cyllid sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog staff yn cael ei ddefnyddio ar draws graddau;
- effaith gyllidebol penderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyflogau staff;
- ymgyngoriadau sy'n cael eu cynnal ag Undebau Llafur a chyrff adolygu cyflogau arbenigol;
- effaith fwriadedig y dyfarniadau cyflog ar drosiant staff. ............ Tudalen 69

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ar y cynllun hyfforddeion estynedig, gan gynnwys ei gostau cysylltiedig, a gwybodaeth am gyfran y staff newydd gymhwyso sy'n aros yn y sefydliad. ............ Tudalen 70

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd ar sut y mae'n gwerthuso effaith ei godiadau ffioedd sy'n gysylltiedig â'i safonau archwilio newydd. ............ Tudalen 70

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

**1.** Cafodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.[1] Roedd y Ddeddf yn rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn parhau ac yn creu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). At hynny, roedd yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.

**2.** Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, yn ogystal â Phrif Weithredwr SAC a'i Swyddog Cyfrifyddu. Mae SAC yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, yn dal ac yn darparu adnoddau ac yn codi ffioedd ar gyfer gwaith yr Archwilydd a SAC. Cynrychiolir SAC gan Fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd anweithredol, aelodau anweithredol eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodir o blith y cyflogeion a dau aelod a etholir o blith y cyflogeion.

**3.** Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol yr Archwilydd Cyffredinol a SAC, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

## Trefniadau atebolrwydd a llywodraethu

**4.** Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o swyddogaethau i Senedd Cymru (y Senedd). O dan adran 28 o'r Ddeddf, caiff y Senedd wneud darpariaeth drwy ei Rheolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Senedd neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".[2] Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10, dirprwywyd goruchwyliaeth SAC i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor).[3]

**5.** Gwnaed gwaith craffu blynyddol y flwyddyn hon ar SAC a'r Archwilydd Cyffredinol mewn dwy ran.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[3] Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 1 Hydref 2013

**6.** Trafododd y Pwyllgor y cyhoeddiadau a ganlyn ar 20 Medi 2023 a chymryd tystiolaeth gan Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol, Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd y Bwrdd, a dau swyddog o Archwilio Cymru:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23;[4]
- RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023;[5]
- Cynllun Blynyddol 2023-24.[6]

**7.** Ar 9 Tachwedd 2023, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol, Cadeirydd y Bwrdd, a dau swyddog o Archwilio Cymru ar y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025;
- Adroddiad Interim - Asesiad o’r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023;

**Casgliad 1.** Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23;
- Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023;
- Cynllun Blynyddol 2023-24;
- Adroddiad Interim - Asesiad o’r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2023-24 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

[4] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23
[5] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023
[6] Cynllun Blynyddol 2023-24

# 2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

**8.** Gosodwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2022-23[7] gerbron y Senedd ar 16 Mehefin 2023. Lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu SAC, y Cyfrifon ar gyfer 2022-23 yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei lunio ar y cyd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd, yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf.[8]

**9.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn datgan bod arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi bod yn gyson yn fras â'r Cynllun Blynyddol a luniwyd ar gyfer y flwyddyn a bod y blaenoriaethau yn y Cynllun "wedi'u cyflawni i raddau helaeth".[9]

**10.** Dyma Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd newydd y Bwrdd, a ddechreuodd yn y rôl ar 16 Mawrth 2023. Yn ei datganiad agoriadol[10], mae'r Cadeirydd yn cyfeirio at yr heriau ariannol y mae Archwilio Cymru a'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Gwnaeth y Cadeirydd sylw hefyd am ei phrofiadau hyd yn hyn yn cyfarfod yn unigol ag aelodau'r bwrdd ac aelodau'r tîm arwain gweithredol, yn ogystal ag aelodau'r Pwyllgor Cyllid. Aeth ymlaen hefyd i rannu rhai sylwadau o'i chwe mis cyntaf yn y swydd, gan gyfeirio at ffocws Archwilio Cymru ar ansawdd ac effeithlonrwydd wrth sicrhau bod digon o staff â phrofiad:[11]

> *"… it's essential that we are able to provide a good and robust public audit service, and clearly we need to be able to have the resources to do so."*[12]

**11.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio at nifer o gynlluniau a strategaethau Archwilio Cymru, gan gynnwys strategaeth bum mlynedd 2022-2027 Archwilio Cymru: Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"Eleni oedd blwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd ac mae wedi bod yn foddhaus gweld y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at wireddu ein huchelgeisiau strategol, a danategwyd gan ffocws diwyro ar wella ansawdd ac effaith ein gwaith."*[13]

[7] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23
[8] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[9] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 3
[10] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 11
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 25
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 23
[13] Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein strategaeth 2022-27

**12.** Mae Archwilio Cymru yn nodi ei flaenoriaethau dros y 12 mis diwethaf, sydd wedi canolbwyntio ar bennu ei gyfeiriad strategol, gweithredu newidiadau i'w weithleoedd ac addasu'r ffyrdd y mae'n cefnogi staff i weithio'n hyblyg.

**13.** Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei dystiolaeth lafar fod rhaglen waith Archwilio Cymru am dair blynedd wedi'i chyhoeddi am y tro cyntaf a bod darparu eglurder strategol i randdeiliaid wedi'i groesawu.[14]

**14.** Crynhodd y gwaith o gyflawni blwyddyn gyntaf cynllun strategol pum mlynedd Archwilio Cymru fel un sy'n gwneud cynnydd da ac y byddai'n adrodd i'r bwrdd bob chwarter.

**15.** Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn nodi, yn 2022-23, y cynhaliodd y Tîm Arwain Gweithredol a Bwrdd SAC:

> *"...adolygiad 'dalen wag' ar y cyd i ystyried yr amgylchedd mewnol ac allanol, a phynciau a adnabuwyd trwy sganio'r gorwel i adnabod bygythiadau neu gyfleoedd a allai effeithio ar gyflawni ein hamcanion strategol a'n busnes craidd."*[15]

## Perfformiad

**16.** Cyflawnodd Archwilio Cymru, neu roedd yn agos at gyflawni, 11 o 18 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer y flwyddyn (cyflawnwyd 13 o 18 yn 2021-22).[16])

**17.** Cafodd y DPA a ganlyn eu graddio fel bod "angen gwelliant":

- Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd erbyn y terfyn amser statudol.
- Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen arfaethedig.
- Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd a gyflawnwyd yn unol â safonau ansawdd (Ansawdd Archwilio) y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae hon yn sgôr gyfunol ar gyfer cyfrifon ac archwilio perfformiad.

---

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 31
[15] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 35
[16] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 17

- Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy waith Archwilio Cymru, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall.[17]

**18.** Nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, am y tro cyntaf yn 2022-23, y defnyddiwyd cwmni ymchwil annibynnol, i gasglu adborth rhanddeiliaid. Pan gafodd ei holi ar ddefnyddio cwmni ymchwil annibynnol yn 2022-23 i gasglu adborth rhanddeiliaid, esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol, yn hanesyddol, fod hyn wedi'i gasglu drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb gan gyfarwyddwyr ymgysylltu a phrif swyddogion cyllid. Mynegodd rywfaint o bryder ynghylch y fethodoleg honno, gan ddweud eu bod am wirio hynny drwy wneud gwaith ymchwil cwbl annibynnol gan drydydd parti, sef yr hyn y maent wedi'i wneud eleni.[18]

**19.** Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"The results are marginally down on that previous approach … But we were delighted by what they showed, because they are still exceptionally high levels in respect of the quality of work, the credibility of our work."*[19]

**20.** Fodd bynnag, aeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… next year, we'll revert to the old approach" a "repeat this third party independent approach in a few years' time".*[20]

**21.** Cafodd y DPA a ganlyn eu graddio fel bod "angen gwelliant sylweddol":

- Ymgysylltu â gweithwyr (graddiwyd y dangosydd hwn hefyd fel bod "angen gwelliant sylweddol" yn 2021-22).
- Profiad y gweithwyr (er nad oes modd cymharu'n uniongyrchol, graddiwyd y dangosydd hwn fel bod angen gwelliant sylweddol ers 2020-21).
- Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr.21

[17] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 19
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 61
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 61
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 62
[21] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 23

**22.** Wrth ymdrin â'r DPA ar ymgysylltu â staff y mae arnynt angen "gwelliant sylweddol", pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol effaith newidiadau personol a phroffesiynol a'r pwysau ar bobl yn sgil y pandemig.[22] Aeth ymlaen i ddweud bod ôl-groniad sylweddol iawn o waith a gronnodd yn ystod y pandemig.[23]

**23.** Tynnodd sylw hefyd at bryderon staff ynghylch tâl a chydnabyddiaeth ariannol a datganodd y canlynol:

> *"We have some serious difficulties in recruiting and retaining staff, and, of course, every time a member of staff leaves, that adds pressure on those who remain."*[24]

**24.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r cymysgedd o'r materion hynny ac ymdeimlad nad oedd uwch-arweinwyr y sefydliad yn ymgysylltu ddigon ac i'w gweld yn mynd i'r afael â'r pethau hynny[25] oedd yn peri pryder i'r staff.

**25.** Yn sgil y gyfran is o hyfforddeion yn llwyddo y tro cyntaf mewn arholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch, esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio ei bod yn credu bod llu o resymau dros hyn. Datganodd fod llawer o'r hyfforddeion wedi ymuno ar adeg anodd yn ystod y pandemig a oedd yn golygu y darparwyd gwaith astudio ar-lein a oedd yn dda ond, nad oedd cystal ag y bu o'r blaen mae'n debyg.[26] Mynegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio bryder hefyd ynghylch y diffyg profiad gwaith roedd yr hyfforddeion wedi'i gael.[27]

**26.** Wrth ymateb, esboniodd fod Archwilio Cymru wedi adolygu'r cynllun yn llwyr er mwyn gweld a oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol, megis gwasgaru arholiadau.[28]

**27.** Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol hefyd y cysylltiad â heriau adnoddau:

> *"… without our pipeline of trainees, we would be in a far worse position, because it's very, very difficult to recruit externally in the current market. So, growing our own talent that we hope to keep at Audit Wales… is really important."*[29]

---

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 37
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 37
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 37
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 37
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 55
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 56
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 57
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 58

**28.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod pwysau adnoddau'n ffactor a oedd wedi effeithio ar rai canlyniadau DPA:

> *"So, for instance, our desire to improve our position in terms of the timeliness of delivery of our audit, which is reflected in some of our key performance indicators, we're struggling on that front because of the resourcing pressures that we face."*[30]

## Darparu'r Rhaglen Waith

**29.** Yn ôl Archwilio Cymru, cafodd rhaglen waith 2022-23 ei "chwblhau'n sylweddol" yn unol â'i dargedau. Mae'n amlinellu y cyflawnwyd y rhaglen yn erbyn "cefnlen heriol"[31], a oedd yn effeithio arno a chyrff archwiliedig, gan dynnu sylw at nifer o faterion, gan gynnwys:

- lefelau uchel o alw am staff gwasanaethau proffesiynol yn arwain at gyfnewidioldeb yn y farchnad recriwtio;
- disgwyliadau bythol gynyddol o ran ansawdd gwaith archwilwyr;
- ffyrdd gwahanol o weithio mewn amgylchedd ar ôl y pandemig;
- pwysau ariannol sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus a'r economi gyfan.

**30.** Cwblhawyd pob un ond un (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) o archwiliadau Archwilio Cymru o gyfrifon cyrff y GIG erbyn y targed, sef 17 Mehefin 2022.

**31.** Cwblhawyd archwiliadau llywodraeth leol yn hwyrach nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd mater technegol, yn ymwneud â thrin asedau seilwaith. Cytunwyd ar darged diwygiedig â Llywodraeth Cymru, sef 31 Ionawr 2023, ar gyfer cwblhau archwiliadau: cyflawnwyd hynny ar gyfer 72 y cant o'r archwiliadau. Lle na chyflawnwyd y targed, mae Archwilio Cymru yn dweud bod hyn o ganlyniad i amgylchiadau lleol amrywiol, yn hytrach nag unrhyw fater unigol yn effeithio ar ei gyrff archwiliedig neu arno ei hun. Cafodd y mater hwn ei grybwyll gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y llynedd.[32]

**32.** Wrth gael ei holi ar fethu rhai dyddiadau cau statudol, pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod dau brif sbardun a oedd yn gyfrifol am y perfformiad is. Roedd y cyntaf yn gysylltiedig â mater gydag asedau seilwaith a oedd yn gyfan

[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 32
[31] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 28
[32] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 105

gwbl y tu hwnt i'w rheolaeth ac a oedd yn effeithio ar y DU gyfan, nid dim ond Cymru.[33] Priodolwyd yr ail i bwysau adnoddau:

> *"... what the infrastructure assets issue did was actually to mask the pressure that we're under to meet deadlines. This year, I don't think we will meet all of our deadlines for local government. We will miss many by several months. And that goes to the heart of the resourcing pressures that we're under...If we haven't got the staff, we can't do the work".*[34]

**33.** Aeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen i gymharu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru â sefyllfa llywodraeth leol yn Lloegr, gan ddatgan bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amcangyfrif y canlynol:

> *"anything up to 1,000 audits are outstanding across between 300 and 400 bodies, some of them dating back to 2015. We're nowhere near that in Wales, I'm pleased to say, but I think when we start to miss our deadlines by a matter of months, it's a signal that we're at the top of a very slippery slope...the concern then is not about Audit Wales not meeting a KPI, it's the consequence of an absence of timely audit that you see manifested in the failures that you're seeing across the board in local government in England now."*[35]

## Y gweithlu

### Arolwg staff

**34.** Cynhaliodd Archwilio Cymru ei arolwg staff ym mis Hydref 2022 (cyfradd ymateb 76 y cant), yn seiliedig ar yr holiadur craidd a ddefnyddiwyd yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at ostyngiad yn y sgôr ymgysylltu gyffredinol o 64 y cant i 60 y cant ac yn nodi'r canlynol:

> *"Ar lefel thematig roedd canlyniadau ein harolwg yn 2022 yn dynodi lleihad ym modlonrwydd cyflogeion ar draws nifer o feysydd o'i gymharu â sgoriau'r flwyddyn flaenorol."*[36]

[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 64
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 64
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 65
[36] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 54

**35.** Y llynedd, gwnaeth y Pwyllgor sylw ar ganlyniadau'r arolwg staff, gan ddweud y canlynol:

> *"… rydym yn siomedig gyda chanlyniadau'r arolwg staff, sef y categorïau sy'n ymwneud ag ymgysylltiad a phrofiad gweithwyr, arweinyddiaeth a newid, ac amcanion a phwrpas sefydliadol."*[37]

**36.** Wrth ateb cwestiynau am ganlyniadau'r flwyddyn hon, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd yn bwriadu canolbwyntio ar dri maes yn y dyfodol: arweinyddiaeth, adnoddau a balchder yn y sefydliad.

> *"On leadership, Kate alluded to one thing: to increase our clarity of leadership and leadership message. We're in the second tranche of a big wave of staff engagement events. On resourcing, we undeniably still face a lot of pressure, but we have recruited as best we can. We've looked to develop and promote staff from within, and we've shuffled our resources around internally to bring staff from performance audit and corporate teams to support their colleagues in accounts work where the statutory deadlines primarily meet."*[38]

**37.** Ar y pwynt hwn, mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi y bydd cynllun y Tîm Arwain Gweithredol i ganolbwyntio ei ymdrechion ar y tri maes hanfodol yn "helaethu gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud trwy ein Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol".[39]

### Ymgysylltu â staff

**38.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r ffordd y mae Archwilio Cymru wedi bod yn ymgysylltu â staff yn ystod y flwyddyn. Mae'n nodi lansiad cylchlythyr staff newydd a chyhoeddi blogiau rheolaidd sy'n cael eu postio gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol. Mae hefyd yn nodi ei fod wedi cynnal sesiynau briffio ar gyfer y staff cyfan a sesiynau holi ac ateb ar gyfer prosiectau allweddol ar draws y sefydliad a'i fod wedi cynnal "arolwg gwirio tymheredd interim"[40] ac ymgysylltiad manwl i gael dealltwriaeth well am farn staff a llywio gwelliant. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi y casglwyd adborth drwy arolygon a grwpiau ffocws i lywio

[37] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 67
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 38
[39] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 55
[40] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 54

newidiadau megis dyluniad swyddfeydd a chynllun teithio newydd a “rhaeadru gwybodaeth” yn rheolaidd[41] i reolwyr llinell.

**39.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi, ym mis Medi 2022, y lansiodd Archwilio Cymru Strategaeth Lles Staff sydd wedi'i dylunio ar sail tair thema lles “sy’n ganolog i’n nodau ar gyfer Archwilio Cymru”[42] – Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu’n Dda. Mae'n cael ei ategu gan gynllun cyflawni, gan gynnwys gweithgareddau a chymorth i staff a rheolwyr gan gynnwys hyfforddiant, flogiau, seminarau, a chyngor ar-lein. Mae Archwilio Cymru hefyd wedi cyflwyno rôl Hyrwyddwr Lles, gyda 18 o staff yn cyflawni’r rôl hon ar draws y sefydliad.

**40.** O ran y cynnydd a wnaed ers gweithredu'r strategaeth, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol y canlynol:

> *“… we've been in place a year; we think it's a good time now to take stock, so we're just about to start formally engaging and consulting staff and the wellbeing champions to identify what's worked well, what could perhaps be strengthened further, and we're due to report back to our remuneration committee in March of next year.”*[43]

## Adeiladau

**41.** Ym mis Mawrth 2023, symudodd Archwilio Cymru swyddfeydd o'i hen safle ar Heol y Gadeirlan yng Nghaerdydd i safle newydd yng Nghwr y Ddinas. Cymeradwywyd ail Amcangyfrif Atodol i ganiatáu cyllid i hwyluso’r broses o adleoli’r swyddfeydd.

**42.** Pan ofynnwyd iddo esbonio'r tanwariant cyfalaf a ddigwyddodd yn 2022-23, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol y canlynol:

> *“… when the Finance Committee supported our Cardiff office move last year, I think one of the things that you said to us was that you'd expect us to carry out the move as cost-effectively as possible, and we very much took that on board with the move. In the end, we came in about £270,000 under budget, and we did that through a range of measures: smart procurement, an agreement of rent-free periods with the landlord, we recycled a lot of furniture and equipment from the old office, and we also*

[41] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 54
[42] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 42
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 50

> *vired money from our other capital budgets to the office move so that we could keep the costs down as much as possible.”*[44]

**43.** Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion ar sut y byddai'r gwersi a ddysgwyd o newidiadau'r Lwfans Teithio y flwyddyn flaenorol yn cael eu cymhwyso i adleoli swyddfa Caerdydd. O gofio bod y sgoriau isel parhaus a adlewyrchir yn yr arolwg staff ynghylch pa mor dda y rheolir newid yn y sefydliad, gofynnodd y Pwyllgor i Archwilio Cymru a oedd wedi gofyn am adborth gan staff ar sut roedd wedi rheoli symud swyddfa Caerdydd.

**44.** Soniodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod y sefydliad wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â staff wrth baratoi ar gyfer adleoli eu swyddfeydd. Pwysleisiodd y rôl oedd gan staff ym mhob rhan o'r sefydliad wrth lunio rhestr fer o eiddo a chymryd rhan mewn gweithdai dylunio, gan wneud sylwadau bod y swyddfa wedi'i dylunio i ymateb i'r ffordd y mae anghenion staff yn datblygu.[45] Clywodd y Pwyllgor hefyd yr ymgynghorwyd â hyrwyddwyr lles i greu mannau a fyddai'n cefnogi lles staff, yn ogystal â sesiwn tîm staff cyfan:

> *“…. to explain what was happening, to gather further views, so it's been an ongoing dialogue, so I think staff have felt rather than the office move being done to them, it has been done with them.”*[46]

**45.** Ymhelaethodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn, gan ddweud y canlynol:

> *“We've certainly sought feedback from staff following the office move and the feedback has been extremely positive, both about the new environment—so, really positive about the way it supports our business need—but also the way in which it was done, the way in which we engaged with staff, and that's something that we've taken the learning from and we've applied it to a smaller move, which has just happened in north Wales when we moved our office from Abergele to Llandudno Junction.”*[47]

---

[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 110
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 42
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 43
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 44

## Trosiant staff

**46.** Roedd trosiant staff blynyddol ychydig yn uwch nag yn 2021-22, sef 10.56 y cant o'i gymharu â 10.09 y cant. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae llawer o'n trosiant yn ymwneud â hyfforddeion graddedig a phrentisiaid a gyflogir ar gontractau cyfnod penodol sy'n dod i ben a hwythau'n cael eu disodli gan newydd-ddyfodiaid. Yn ystod 2022-23 fe welsom hefyd gynnydd yn nifer ein staff archwilio cymwysedig a adawodd y sefydliad."*[48]

**47.** Wrth gael ei holi ar gyfraddau trosiant staff yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar, cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol, ar gyfradd dros 15 y cant dros y 12 mis blaenorol, eu bod yn uwch na'r safonau ar gyfer y diwydiant, yn gyffredinol, a'u bod yn llawer, llawer uwch na'r rhai y mae wedi arfer â hwy.[49]

**48.** Cyfeiriodd hefyd at y tâl uwch a gynigir gan gyrff eraill y sectorau cyhoeddus a phreifat, fel her benodol y mae Archwilio Cymru yn ei hwynebu, yn ogystal â staff yn gadael i fynd i'r sector preifat. Pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

> *"… in the last six months or so, I think we've probably lost half a dozen or so of our best staff to the private sector, primarily, across the border in England… This is a reflection of the weaknesses in the system in England finally being addressed by the UK Government investing some more money in that space. The private firms, therefore, are expanding and recruiting very aggressively."*[50]

**49.** Yn ei ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar ffigurau sy'n ymwneud â throsiant staff, mae Archwilio Cymru yn rhoi manylion am rolau'r rhai sydd wedi gadael y sefydliad. Mae'n nodi bod 25 aelod o staff wedi gadael Gwasanaethau Archwilio'r sefydliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r 25 aelod hynny o staff, roedd 16 yn gyfrifwyr cymwysedig. Ers cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol, mae dau aelod arall o staff cymwysedig wedi gadael y sefydliad.[51]

## Cyflogau staff

**50.** Yn ei datganiad agoriadol, cyfeiriodd Cadeirydd y Bwrdd at heriau Archwilio Cymru wrth recriwtio a chadw staff, gan bwysleisio colli staff i'r sector preifat.

[48] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 99
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 99
[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 100
[51] Llythyr gan Archwilio Cymru, 2 Hydref 2023

Soniodd am y pwysigrwydd bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi mewn perthynas â'u gallu i ymrwymo i'r taliad costau byw a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar gadw staff:

> "Whilst money is not necessarily a motivator, the lack of feeling valued can be a demotivator…"[52]

**51.** Ymhelaethodd yr Archwilydd Cyffredinol ar hyn, gan gyfeirio at yr effaith bosibl y gallai gweithredu diwydiannol ei chael ar y sefydliad, yn benodol ar ei allu i gyrraedd targedau DPA. Dywedodd y canlynol:

> *"we've already lost several hundred days of input from staff. We have to strike a balance. Staff have a right to take the action, and we have to respect that, but, undeniably, it does feed through into the resourcing pressures that we've discussed at length, and the knock-on impact is that it makes it harder for us to catch up, harder to meet the statutory deadlines for our work, and so forth."*[53]

**52.** Ym mis Tachwedd 2022, cafodd y Pwyllgor ohebiaeth ar gyflog staff gan undeb Prospect ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Datganodd y llythyr fod y ddau undeb mewn anghydfod gyda'r Bwrdd ynglŷn â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2022-23. Y llynedd, mynegodd y Pwyllgor y:

> *"… byddai'n amhriodol inni lunio barn ar y materion a godwyd gan yr undebau llafur, gan eu bod yn ymwneud â materion gweithredol y mae Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a Bwrdd Archwilio Cymru yn gyfrifol amdanynt."*[54]

**53.** Pan ofynnwyd iddo a oedd Archwilio Cymru wedi datrys y materion o 2022-23 a sut roedd trafodaethau dilynol ag undebau llafur yn datblygu, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol y canlynol:

> *"No, we've not. Both trade unions are still in dispute with us over the 2022-23 pay award. As Adrian set out earlier, that was 3 per cent that we awarded to staff. What they've made clear to us is that they are seeking a £1,500 cost-of-living payment, in line with what's been seen at Welsh Government and a range of other public bodies. They've said if we're in a position to make*

[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 26
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 110
[54] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 210

> *that payment, then they would suspend the industrial action. But, at the moment, we don't have the funding for that, and so we anticipate that, unless that changes, the dispute will continue."*[55]

## Ansawdd archwilio

**54.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dweud bod ansawdd gwaith Archwilio Cymru o'r "pwys mwyaf"[56]. Yn 2022-23, mae'n dweud ei fod wedi parhau i fuddsoddi yn y maes hwn, gan gynnwys drwy weithredu safonau a dulliau archwilio newydd, a gofynion a threfniadau newydd ynghylch rheoli ansawdd archwilio. Mae'n esbonio y bydd cyflwyno'r safonau newydd yn cael ei helaethu gan raglen dysgu a datblygu drwy gydol 2023-24.

**55.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol sylw ar gymhwyso safonau ansawdd archwilio newydd, gan esbonio'r canlynol:

> *"… in a year's time we will see the first reviews where we have taken a fundamentally different approach in all aspects of our audit".*[57]

**56.** Methodd Archwilio Cymru ei darged perfformiad sy'n ymwneud ag ansawdd, fel y gwnaeth y llynedd, sy'n sgôr gyfunol ar gyfer ansawdd archwilio ariannol (100 y cant) ac ar gyfer archwilio perfformiad (67 y cant). Edrychodd y Pwyllgor ar y perfformiad hwn y llynedd pan ddywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod sicrwydd ansawdd allanol gwaith cyfrifon wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[58]

**57.** Wrth sôn am y targed perfformiad a fethwyd eleni, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y canlynol:

> *"You'll see that all of the accounts reviews met the required standard that we set ourselves, which is a 1 or a 2. A 3 in the QAD, the quality assurance department of the Institute of Chartered Accountants in England and Wales, requires improvement. And if they assess as a 3, that's where we don't count it as meeting our target.*

[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 127
[56] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 32
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 72
[58] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 43

> *We had one performance audit review that had a 3 in that space."*[59]

Pan ofynnwyd iddi a oedd y materion a nodwyd wrth asesu ansawdd archwilio'n arwyddocaol, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio ei bod hi, yn ogystal â'r Archwilydd Cyffredinol a'r Cadeirydd, yn falch iawn a bod y pwyllgor ansawdd yn ddibryder[60] am y canlyniadau.

**58.** Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio mai ansawdd yw craidd y cyfan y mae'r sefydliad yn ei wneud ac y bydd ansawdd bob amser yn drech nag amseroldeb oherwydd bod yn rhaid gwneud y gwaith yn iawn ac yn unol â safonau.[61]

**59.** Mae Archwilio Cymru hefyd yn nodi, yn ei Adroddiad Blynyddol, y datblygiadau ynghylch dyfodol y proffesiwn archwilio yn y DU. Mae'n dweud ei fod wedi cael cyfres o sgyrsiau â'r Trysorlys a Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau posibl, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd un o bwyllgorau'r Senedd yn goruchwylio ansawdd gwaith Archwilio Cymru.[62] Trafodwyd y mater hwn hefyd ag Archwilio Cymru yn ystod ei waith craffu y llynedd.[63]

**60.** Wrth gael ei holi ar sgyrsiau eraill y mae Archwilio Cymru wedi'u cael â'r Trysorlys a Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn yn ystod y flwyddyn, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod datblygiad o'r fath bron yn anochel, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"The time will come where this committee or another committee within the Senedd is likely to be asked to take on that role. But we're not seeing any signs of it being enforced legislatively, so I would suggest it's something that you and we just need to keep a watching brief on."*[64]

**61.** Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n ychwanegiad enfawr at lwyth gwaith y pwyllgor ac nad oedd yn credu y dylid ei wneud oni bai bod yn rhaid ei wneud. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu parhau i fonitro'r sefyllfa a sicrhau bod y pwyllgor yn cael y diweddaraf.[65]

[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 68
[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 69
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 71
[62] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 40
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 387
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 75
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 75

## Llywodraethu

**62.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dweud bod Bwrdd SAC yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Mae gan y Bwrdd ddau bwyllgor cynghori: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl ac Adnoddau Dynol.

**63.** Yn 2022-23, cwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd a thrafododd y canlyniadau ym mis Rhagfyr 2022. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn gweithredu'n "effeithiol ac yn gydlynus o ran cyflawni ei swyddogaethau".[66] Gwnaeth yr adolygiad argymhellion i ddatblygu a gwella'r Bwrdd o ran:

- y modd y mae'n monitro perfformiad, risg, y sefyllfa ariannol ac adnoddau, gan ddefnyddio adroddiad perfformiad integredig
- ymgysylltiad â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol.

**64.** Datblygodd y Bwrdd gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol a nodwyd i'w gwella a chytunodd i gynnal hunanasesiad arall o'i effeithiolrwydd yn ystod 2023-24. Cynhaliodd pwyllgorau'r Bwrdd hunanasesiadau hefyd, heb feysydd sy'n peri pryder yn dod i'r amlwg.

**65.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cadeirio Tîm Arwain Gweithredol, sy'n goruchwylio ac yn monitro gweithrediad y Cynllun Blynyddol. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn gweithredu 'Panel Staff'. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi yr adnewyddwyd aelodaeth y Panel Staff ym mis Chwefror 2023.

**66.** Mae Archwilio Cymru wedi penodi TIAA fel ei archwilwyr mewnol am y tair blynedd 2022-23 i 2024-25. Yn flaenorol, PricewaterhouseCoopers oedd yn ymgymryd â'r rôl hon. Cyhoeddwyd tri adroddiad archwilio mewnol gan TIAA, yn ogystal ag un adroddiad dilynol. Dosbarthwyd un o'r adroddiadau hynny, sy'n ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol fel "sicrwydd cyfyngedig". "Cynghori" oedd dosbarthiad un arall, sy'n ymwneud â gwybodaeth reoli: rheoli perfformiad. O ran ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol, dyma arsylwadau'r archwiliad mewnol:

> *"Canfuwyd materion o fewn y diwylliant a diffyg ymgysylltu rhwng meysydd o fewn strwythur sefydliadol Archwilio Cymru. Er bod negeseuon yn cael eu cyhoeddi'n briodol, mae angen gwelliannau i ddiffinio a safoni'r modd y cânt eu cyflwyno, gan*

[66] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 71

*ddefnyddio platfform priodol i sicrhau bod staff yn ymgysylltu â'r deunydd sy'n berthnasol iddynt."*[67]

**67.** Mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan TIAA yn ei adroddiad, clywodd y Pwyllgor fod tri sy'n amlwg ar y rhai a ddosbarthwyd yn 'sicrwydd cyfyngedig'[68], yr oedd y tîm arwain gweithredol yn mynd i'r afael â hwy:

- Cyfathrebu ac ymgysylltu gan y tîm uwch-arweinwyr â chydweithwyr yn y sefydliad;
- Cyfleu gwybodaeth ac arweiniad ynghylch archwilio a gwaith corfforaethol;
- Y dull o gynnal yr arolwg staff.

**68.** O ran dull y sefydliad o gynnal arolwg staff, esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol y canlynol:

*"…the approach we'd previously taken with the civil service people survey… wasn't giving us the sort of richness of information that we needed, the timeliness of information we needed, to really respond to and to address staff concerns… So, what we've now got with our new staff survey is an approach that is far more dynamic, it's a lot more focused, and will allow us to tailor the survey much better, keeping the same baseline KPIs for reporting purposes, but enabling us to delve much more into what is really concerning staff."*[69]

## Rheoli risg

**69.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu nifer o risgiau strategol sydd "wedi mynd ag amser y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol trwy'r cyfnod adrodd",[70] gan gynnwys:

- gallu dangos gwerth am arian yn effeithiol o ran sut y mae'r busnes yn cael ei reoli;
- rheoli pwysau llwyth gwaith a chefnogi cydnerthedd a lles staff;

[67] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 75
[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 79
[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 81
[70] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 80

- Gallu Archwilio Cymru i recriwtio a chadw'r staff archwilio gofynnol â'r sgiliau angenrheidiol ar bob gradd, gan ystyried prinderau yn y marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- sicrhau bod trefniadau rheoli ansawdd Archwilio Cymru yn cydymffurfio â safonau rheoli ansawdd newydd a bod ei waith archwilio'n dal i fod yn gyson ag arfer proffesiynol gorau;
- y risg na ellir codi cymaint o dâl am staff â'r hyn sydd wedi'i broffilio mewn cyllidebau; a
- seiberddiogelwch, seilwaith TG a sicrhau parhad busnes.

**70.** Er nad yw'r Adroddiad Blynyddol yn nodi risgiau penodol yn ôl eu categori, mae'n darparu gwybodaeth am nifer y risgiau ym mhob categori. Mae hyn yn cynnwys tair risg yn y categori 'tebygol' ag effaith 'fawr'. Yn 2021-22, nid oedd risgiau yn y categori hwn – nac yn y categorïau mwy arwyddocaol 'tebygol iawn' a 'difrifol'.

**71.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, datganodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

> *"the No. 1 strategic risk for us is around resourcing and staffing … every other risk … is in some way linked to that."*[71]

**72.** Pan ofynnwyd iddo'n benodol am y camau roedd Archwilio Cymru yn eu cymryd i liniaru risgiau strategol y sefydliad a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

> *"… we have a whole framework of measures that we take to try to ensure audit quality. It begins with our recruitment and development and training of our staff. It builds on that through the tools that we ensure are available to staff to ensure that they're following best practice in their work. And, finally, it also has a layer of assurance built in from the scrutiny of our audit quality committee, the board and the leadership team. So, it's a complete framework that is designed to ensure that our audit work is of the highest possible quality."*[72]

[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 84
[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 93

## Rheolaeth ariannol ac effeithlonrwydd

**73.** Yn ôl ei Adroddiad Blynyddol, mae Archwilio Cymru wedi sicrhau bron £1.5 miliwn mewn arbedion, o'i gymharu ag £1.4 miliwn a nodir yn ei Amcangyfrif. Cafwyd £140,000 (0.6 y cant) mewn tanwariant refeniw net. Mae hefyd yn nodi arbedion sy'n gysylltiedig â'r newid yn y lwfans teithio a symud swyddfa yng Nghaerdydd, y mae'n dweud iddo gael ei gyflawni am "gost sylweddol is nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol".[73] Cyfanswm y cyllid a gaiff ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru yw £509,000.[74]

**74.** Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn nodi y sefydlwyd grŵp Adolygu Cynaliadwyedd Ariannol, sydd â chylch gwaith i adnabod arbedion ychwanegol ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd yn y dyfodol. Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd at y Pwyllgor yn rhoi mwy o fanylion am gylch gwaith y grŵp a'r hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yn hyn, gan esbonio ei fod yn "ceisio lleihau ein costau heb effeithio'n andwyol ar ansawdd ein darpariaeth archwilio, ein gallu i gynhyrchu incwm, neu les staff."[75]

**75.** Mae Archwilio Cymru yn amlinellu buddsoddiad cyfalaf gwerth £555,000, gan gynnwys £351,000 ar gyfer symud swyddfa. Yr arian parod cyfalaf cyffredinol a geisiwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £885,000 (yn dilyn cais am £575,000 ychwanegol yn Ail Gyllideb Atodol Archwilio Cymru, sy'n ymwneud â symud swyddfa yng Nghaerdydd).[76]

## Cyfrifon

### Alldro

**76.** £24.6 miliwn oedd gwariant adnoddau gros Archwilio Cymru. £8.9 miliwn oedd ei ofyniad arian parod net. £14.3 miliwn oedd ei incwm ar gyfer y flwyddyn, sydd £828,000 yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd.

**77.** Y llynedd, nododd y pwyllgor nad oedd Archwilio Cymru yn bwriadu dychwelyd dim o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer Yswiriant Gwladol (YG) nad oedd ei angen mwyach yn dilyn y gostyngiad yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr. Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor fod:

[73] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 53
[74] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 100
[75] Llythyr gan Archwilio Cymru, 2 Hydref 2023
[76] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 53

> *"… Archwilio Cymru yn dychwelyd y cyllid heb ei wario ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 2022-23 i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn addasu'r llinell sylfaen ar gyfer 2023-24 yn unol â hynny."*[77]

**78.** Mewn ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor, amlinellodd Archwilio Cymru werth tebygol y cyllid i'w ddychwelyd, ochr yn ochr â chynnydd mewn costau eraill[78]. Pan gafodd ei holi ar y mater hwn yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, o ganlyniad i ddychwelyd cyllid Yswiriant Gwladol, fod y llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi'i newid yn unol â hynny.

**79.** Clywodd y Pwyllgor hefyd fod gwariant sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol yn is na'r disgwyl oherwydd nad oedd modd gwneud popeth roedd y sefydliad wedi gobeithio ei wneud, a'i fod wedi dychwelyd yr arian nad oedd wedi'i wario.[79]

## Incwm ffioedd

**80.** Roedd Archwilio Cymru yn amcangyfrif incwm ffioedd gwerth £14.3 miliwn yn gysylltiedig â ffioedd archwilio, ond mae wedi cyflawni £13.2 miliwn, £1.1 miliwn yn is. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi mai "Incwm is o ffioedd yn gysylltiedig â swyddi gwag staff" sy'n gyfrifol am hyn. Roedd yr incwm yn gysylltiedig ag ardystio grantiau, sef £1.0 miliwn, £234,000 yn uwch na'r amcangyfrif sy'n "adlewyrchu gwaith ychwanegol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn".[80] Mae incwm ffioedd archwilio yn uwch nag yn 2021-22.

**81.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ailadroddodd yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru mai swyddi gwag staff oedd y prif reswm dros incwm ffioedd is, ond bod absenoldeb oherwydd salwch a gweithredu diwydiannol hefyd yn ffactorau cyfrannol. At hynny, maent yn datgan y canlynol:

> *"rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant gorfodol, nad ydym yn creu incwm ar ei gyfer, gan adlewyrchu'r dull archwilio newydd mewn Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad. Ychwanegodd hyn yn anochel at yr ôl-groniad sylweddol mewn gwaith archwilio a wynebwyd gennym eisoes*

[77] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2022, tudalen 66
[78] Llythyr gan Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid
[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 117
[80] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 102

> *ac sy'n profi'n hynod heriol o ystyried y pwysau recriwtio a chadw a amlygwyd gennym yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid.”*[81]

**82.** Archwilio ariannol llywodraeth leol yw'r maes incwm mwyaf o hyd, sef £5.2 miliwn, gydag incwm ychwanegol gwerth £2.2 miliwn ar gyfer archwilio perfformiad llywodraeth leol. Mae’r arian o archwilio'r sector hwn yn cyfateb i ychydig dros hanner incwm Archwilio Cymru.

### Gwybodaeth arall am gyfrifon

**83.** Mae'r cyfrifon yn amlinellu bod ffigurau net symiau derbyniadwy’n cynnwys £77,000 mewn colledion credyd disgwyliedig, i fyny o £33,000 yn 2021-22. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn nodi yr ysgwyddwyd colled £3,500 yn gysylltiedig â gweithredu cynllun aberthu cyflog ar gyfer ceir ar brydles yn 2022-23.

**84.** Ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor i ymhelaethu ar y colledion credyd hyn ymhellach, gan ddod i'r casgliad ei fod yn “arfer arferol iddynt gael eu cyfrif fel hyn”.[82]

**85.** Mewn perthynas â'r colledion yn gysylltiedig â'r cynllun aberthu cyflog, esboniodd Archwilio Cymru fod hyn wedi digwydd oherwydd "problem dechnegol gyda'r feddalwedd a weithredir gan y darparwr [a oedd] yn golygu bod rhai staff wedi cael eu tangodi tâl am gerbydau” ond y cytunodd “Archwilio Cymru i dalu costau i'r staff hyn am 3 mis, ac roeddem yn teimlo ei fod yn deg i'r staff hynny a oedd wedi ymrwymo i'r cytundebau prydles yn ddidwyll.”[83]

## Barn y Pwyllgor

**86.** Roedd y Pwyllgor yn falch o weld y sylwadau a wnaed gan Gadeirydd y Bwrdd ar ei harsylwadau cychwynnol o'r sefydliad yn ystod ei chwe mis cyntaf yn y swydd. Nodwn ei sylwadau am broffesiynoldeb y sefydliad; ei fod yn rhoi pwyslais cryf iawn ar ansawdd ei waith; a'r gwerth y mae rhanddeiliaid yn ei roi ar ei waith. Rydym hefyd yn croesawu sut y mae Archwilio Cymru wedi cyflawni ei gynllun a'i amcanion yn 2022-23. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddi rhaglen waith Archwilio Cymru am dair blynedd, a'i bwriad o ddarparu eglurder strategol i randdeiliaid, ac rydym yn falch bod hyn wedi cael ei groesawu.

**87.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y pwysau adnoddau parhaus y mae'r sefydliad yn eu hwynebu a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ei staff, rydym yn siomedig bod angen gwelliant sylweddol ar Archwilio Cymru yn ei dargedau

[81] Llythyr gan Archwilio Cymru, 2 Hydref 2023
[82] Llythyr gan Archwilio Cymru, 2 Hydref 2023
[83] Llythyr gan Archwilio Cymru, 2 Hydref 2023

ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad y gweithwyr eto eleni. Mae'n destun gofid bod y materion hyn yn codi un flwyddyn ar ôl y llall a'i bod yn amlwg bod angen gwaith yn y maes hwn i weddnewid pethau. Yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, mynegodd y Pwyllgor bryder am y targedau hyn ac arghymellodd fod Archwilio Cymru yn cynnwys manylion ei berfformiad yn erbyn y targed Dangosydd Perfformiad Allweddol blaenorol ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad y gweithwyr, ochr yn ochr â'i dargedau diwygiedig yn 2022-23[84]. Mae'r Pwyllgor yn adleisio'r teimladau hyn eto. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerwyd eisoes gan Archwilio Cymru i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac mae'n falch o weld ymdrechion i wireddu amcanion y strategaeth lles staff. Rydym hefyd yn cydnabod bod gwaith ymgynghori â staff a hyrwyddwyr lles yn cael ei wneud i fesur pa mor dda y mae'r strategaeth yn gweithio, ac rydym yn croesawu'r dull hwnnw. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o fanylion ar sut y mae'r strategaeth, a gweithgareddau eraill, yn cael eu mesur ac a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar staff.

**88.** O ran rheoli newid, mae'r Pwyllgor yn falch bod gwersi wedi'u dysgu o brosiectau blaenorol, a bod y gwersi hynny wedi'u rhoi ar waith ynghylch adleoli swyddfa Archwilio Cymru yng Nghaerdydd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffordd y mae Archwilio Cymru wedi ceisio ymgysylltu â staff o bob rhan o'r sefydliad i gynllunio a gweithredu'r prosiect, a hoffai gael mwy o fanylion ar yr adborth y mae wedi'i gael gan staff ar y prosesau a ddilynwyd.

**89.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod dull gwahanol wedi'i ddefnyddio yn 2022-23 i gael adborth gan randdeiliaid. Er ein bod yn cydnabod bod rhoi anhysbysrwydd i randdeiliaid drwy ddefnyddio partneriaid allanol i gasglu ymatebion yn debygol o arwain at ganlyniadau gwahanol, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd defnyddio methodoleg wahanol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn effeithio ar y gallu i gymharu'r sgoriau a'i gwneud yn anoddach deall materion sy'n codi. Nodwn ymateb cadarnhaol yr Archwilydd Cyffredinol i'r dull a ddefnyddiwyd eleni, ond hefyd nad oedd y canlyniadau cystal â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn arbennig o awyddus i ddeall sut y byddant yn cymharu â chanlyniadau'r flwyddyn nesaf pan fydd Archwilio Cymru yn dychwelyd i'w broses flaenorol o gofnodi adborth, a gofynnwn am ragor o ddiweddariadau ar y mater hwn.

**90.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau y mae Archwilio Cymru yn eu hwynebu i recriwtio a chadw staff archwilio cymwysedig ac yn cydnabod effaith negyddol staff sydd wedi gadael i fynd i'r sector preifat. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu am y risgiau parhaus a nodwyd gyda staffio a'r cyfraddau trosiant uchel, yn enwedig

[84] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2022, tudalen 5

mewn perthynas â staff cymwysedig. Rydym yn cydnabod bod Archwilio Cymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn rhagweithiol ac yn cymryd camau megis datblygu staff yn y sefydliad a blaenoriaethu adnoddau i gefnogi cydweithwyr i fodloni terfynau amser statudol. Fodd bynnag, mae angen i'r Pwyllgor fod yn sicr bod gwaith o'r fath yn effeithiol ac felly mae'n gofyn am ragor o wybodaeth am ei ddull tymor hir o recriwtio a chadw staff.

**91.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Archwilio Cymru wedi gweithredu safonau newydd a dulliau archwilio, a gofynion a threfniadau newydd o ran rheoli ansawdd archwilio. Rydym yn falch o'r pwyslais a roddir gan Archwilio Cymru ar ansawdd ei wasanaethau a bod y sefyllfa yng Nghymru yn llawer gwell nag yn Lloegr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu teimladau'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio mai ansawdd yw craidd y cyfan y mae'r sefydliad yn ei wneud.[85] Rydym hefyd yn nodi y gall yr adolygiad sydd ar ddod gan yr Adran Sicrhau Ansawdd nodi mwy o faterion oherwydd cyflwyno safonau newydd, ac mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yng nghanlyniadau'r adolygiadau o ganlyniadi hynny.

**92.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad yng nghyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau, yn enwedig o ystyried y materion a godwyd eisoes ynghylch cadw a recriwtio. Mae Archwilio Cymru wedi nodi ei fod yn adolygu'r cynllun ac ymgysylltu â'r hyfforddeion y mae'r Pwyllgor yn derbyn ei fod yn hanfodol er mwyn cael dealltwriaeth well o'r materion hyn. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod yr heriau a achoswyd gan y pandemig a gweithio o bell, a'r effaith benodol y mae hyn yn ei chael ar hyfforddeion, byddem yn croesawu rhagor o fanylion ar sut y mae'r sefydliad yn bwriadu newid y cynllun. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y rhaglen hyfforddeion o bwysigrwydd sylfaenol i'r sefydliad, wrth iddo geisio mynd i'r afael â phwysau staffio. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod llawer o'r pwysau hyn yn cael eu hachosi gan ffactorau allanol, rydym am sicrhau bod y cynllun hyfforddeion mor effeithiol â phosibl. Felly, hoffem gael mwy o fanylion ar sut y mae Archwilio Cymru yn gwerthuso newidiadau i'r cynllun hyfforddeion i sicrhau ei lwyddiant.

**93.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â sylwadau a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol bod Archwilio Cymru yn wynebu cymysgedd o faterion[86] sy'n cyfrannu i fethu targedau DPA. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar Archwilio Cymru i fodloni terfynau amser statudol yn y dyfodol ac rydym yn pryderu am oblygiadau tymor hir ôl-groniad o waith, a achoswyd gan y pandemig. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am sylwadau a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol

[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 71
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 37

bod problemau technegol a arweiniodd at Archwilio Cymru yn methu rhai o'i derfynau amser statudol eleni, yn cuddio'r pwysau adnoddau sylfaenol sy'n debygol o fod yn broblem y tu hwnt i 2022-23. Rydym yn awyddus i wybod i ba raddau y mae'r pwysau hyn yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol a sut y maent yn cael eu rheoli.

**94.** Mewn perthynas ag Yswiriant Gwladol, mae'r pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Archwilio Cymru, drwy ddychwelyd cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, fod y llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi'i newid yn unol â hynny.

**95.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y gwariodd Archwilio Cymru lai na'r disgwyl ar y Fenter Twyll Genedlaethol a bod y cyllid wedi'i ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Hoffai'r Pwyllgor ddeall diben arfaethedig y cyllid hwnnw, pam na chafodd ei ddefnyddio ac a oes sgil-effeithiau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi manylion am sut y mae'n gwerthuso'r camau a gymerir i wella perfformiad mewn perthynas ag ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad y gweithwyr.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu gwybodaeth am yr adborth a gafwyd gan staff am adleoli ei swyddfa yng Nghaerdydd a sut y cafodd y newid hwnnw ei reoli.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am ganlyniadau ei strategaeth lles staff, gan gynnwys pryd y mae'n disgwyl i effaith y strategaeth gael ei hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r arolwg staff.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi manylion am sut y mae'n bwriadu cofnodi adborth rhanddeiliaid er mwyn sicrhau cymhariaeth ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu mwy o wybodaeth am y canlynol:

- sut y mae'n ailflaenoriaethu adnoddau'n fewnol i fodloni ei derfynau amser statudol yn y tymor byr;
- yr hyn y mae'n ei wneud yn y tymor hir i oresgyn risgiau strategol methu terfynau amser statudol a achosir gan bryderon adnoddau a staffio;
- cynnydd wrth weithredu safonau ansawdd archwilio newydd a sut y mae'n cael ei asesu.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am gyfraddau trosiant staff a sut y maent yn cymharu o flwyddyn i flwyddyn.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu am yr adolygiad o gynllun hyfforddeion Archwilio Cymru a'i effaith ar gynllunio'r gweithlu.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn esbonio pam y mae wedi dychwelyd cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol i Gronfa Gyfunol Cymru.

# 3. Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

**96.** Mae'r Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad[87] yn crynhoi prif ganfyddiadau archwilwyr SAC, sef RSM UK Audit LLP ('RSM'), mewn cysylltiad ag archwilio datganiadau ariannol Archwilio Cymru mewn cysylltiad â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn ofyniad o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf.[88]

**97.** Edrychodd yr archwiliad ar risgiau, gan gynnwys:

- Cydnabod refeniw – gwaith ar y gweill ac incwm gohiriedig
- Gwrthwneud rheolaethau mewnol gan reolwyr
- Rheoleidd-dra
- Mabwysiadu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16[89]

**98.** Nid yw RSM yn codi materion yn ei adroddiad yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.[90]

## Cydnabod refeniw

**99.** Nododd yr archwiliad £225,000 mewn camddatganiadau heb eu haddasu. Mae hyn yn ymwneud â chydnabod refeniw – gwaith ar y gweill ac incwm gohiriedig.

**100.** Oherwydd gweithrediad system cofnodi amser newydd, ni allai Archwilio Cymru gyfrifo'r gost i'w chwblhau yn unol â methodoleg y flwyddyn flaenorol. Cyfrifodd RSM y ffigur hwn, gan arwain at gamddatganiad dyfarnol £225,000. Fodd bynnag, nododd Archwilio Cymru natur ddyfarnol y cyfrifiad, ac ni chynigiodd wneud y newid.

**101.** Clywodd y Pwyllgor yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar ei fod, yn dilyn trafodaethau hir ag RSM ar y mater, yn fodlon mai amcangyfrif cyfrifyddu oedd yn gyfrifol am hyn – nid 'camddatganiad heb ei addasu'.

[87] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023
[88] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, paragraff 28(3) o Atodlen 1
[89] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023
[90] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 105

> *"There are different ways of calculating that cost-to-complete estimate, and we had taken a different approach to the ones that RSM would've used."*[91]

## Cworwm

**102.** Am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae RSM yn nodi materion gyda chworwm a ddigwyddodd mewn tri chyfarfod yn ystod 2022-23.[92]. Ym mis Medi 2022 a mis Ionawr 2023, gohiriwyd penderfyniadau i'r cyfarfod canlynol. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2023, gwnaeth y ddau aelod reciwsio eu hunain a chymryd statws sylwedydd. Mae RSM yn dweud y canlynol:

> *"Previous legal advice on similar matters concluded that the requirement per the [Public Audit Wales Act 2013] is for the majority of non-executive members to be "present" rather than "present and voting". The advice recommended that moving forward, the Wales Audit Office updates its procedures to ask one or more employee members not to attend each meeting if needed, to ensure that there is a majority of non-executive members present."*

**103.** Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… given employee board members were still physically present during the discussions, there is a risk that any decisions may be invalidated by the presence of employee members (although they did leave the meeting for the decision and voting)."*[93]

**104.** Gofynnwyd i Gadeirydd y Bwrdd a oedd yn credu bod y cyfarfodydd hynny'n cael eu cynnal yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Datganodd y canlynol:

> *"One formal was not quorate, and we asked two employee members to attend only as observers, and they were not present for the decision making. So, apart from that, it was two strategic meetings; no decisions were taken… I'm satisfied."*[94]

[91] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 122
[92] Cofnodion Bwrdd Archwilio Cymru
[93] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 119

## Camddatganiadau wedi'u haddasu

**105.** Mae RSM yn amlinellu tri maes lle y gwnaed camddatganiadau, ond y cawsant eu haddasu:

- Ailddosbarthu croniadau.
- Cynyddodd y ddarpariaeth dyledion drwg i ddarparu ar gyfer dyled hwyr o 2019 nad yw wedi'i chasglu eto.
- Diweddaru addasiad prydles Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 ar gyfer y cyfnodau di-rent ym mhrydles Cwr y Ddinas ac wrth gydnabod prydles Abergele a oedd â mwy na 12 mis yn weddill adeg y trafodiad (1 Ebrill 2022).

**106.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, nad oedd yn pryderu am yr eitemau hyn. Dywedodd y canlynol am y tri addasiad y gofynnwyd i Archwilio Cymru eu gwneud:

> *"two were reclassifications, and one was around an additional bad debt that we'd identified during the course of the audit. They're fairly routine things that would be picked up during the course of one of our audits, for example, so I don't think there were any particular issues of concern. And we would always look to adjust misstatements wherever we can, even if they're below the materiality level."*[95]

## Barn y Pwyllgor

**107.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pryderon a godwyd gan RSM yn ei Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad ynghylch cworwm y Bwrdd ac yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan Gadeirydd y Bwrdd na wnaed penderfyniadau ffurfiol pan nad oedd gan y Bwrdd gworwm.

[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 124

# 4. Cynllun Blynyddol 2023-24 ac Adroddiad Interim 2022-23

**108.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd lunio Cynllun Blynyddol ac o leiaf un Adroddiad Interim ar y cyd bob blwyddyn.[96]

**109.** Mae Cynllun Blynyddol 2023-24[97] yn nodi'r rhaglenni gwaith ar gyfer y flwyddyn a chafodd ei osod ar 31 Mawrth 2023.

**110.** Mae'r Adroddiad Interim[98] yn darparu asesiad o'r graddau y mae’r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2023-24, ac yn rhoi gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol. Gosodwyd yr Adroddiad Interim gerbron y Senedd ar 25 Hydref 2023.

## Cynllun Blynyddol 2023-24

**111.** Cyhoeddodd Archwilio Cymru ei Gynllun Blynyddol ym mis Ebrill 2023. Mae'n amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024, yn ogystal â gwybodaeth am ei uchelgeisiau tymor hir a’i DPA. Mae'r Cynllun Blynyddol yn dechrau drwy ddweud “Mae’r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru yn llwm”. Dywed Archwilio Cymru nad yw’n:

> *“… ddiogel rhag y pwysau ariannol y mae gweddill y sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Rydym yn cynnal adolygiad cynaliadwyedd ariannol i sicrhau bod y busnes yn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl.”*[99]

**112.** O ran ei waith gwerth am arian, mae Archwilio Cymru yn dweud y bydd ei raglen gwerth am arian yn adlewyrchu “rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r wlad”[100]. Mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon blynyddol Archwilio Cymru, yn ôl y Cynllun Blynyddol, mae’r pandemig, “ynghyd â phwysau eraill o ran darparu adnoddau”[101], wedi effeithio ac y bydd yn ymdrin â gwaddol hyn drwy 2023-24 a’r tu hwnt.

[96] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[97] Cynllun Blynyddol 2023-24
[98] Adroddiad Interim, Hydref 2023
[99] Cynllun Blynyddol 2023-24, tudalen 5
[100] Cynllun Blynyddol 2023-24, tudalen 4
[101] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 36

**113.** Mae'r Cynllun Blynyddol yn trafod materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw. Mae'n cyfeirio at ofynion archwilio newydd a newidiadau i'r ffordd y darperir adnoddau ar gyfer archwiliadau, y soniwyd amdanynt yn ei 'gynllun ffioedd'[102] y llynedd. Mae'n amlinellu "cystadleuaeth o'r proffesiwn cyfrifyddu ac archwilio ehangach", lle y mae Archwilio Cymru yn dweud ei fod wedi gweld tystiolaeth o "gyfraddau cyflogau'n codi'n sylweddol",[103] yn enwedig yn y sector preifat. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Rydym hefyd yn wynebu tarfu pellach posibl ar ein hadnoddau, a'n gallu i greu incwm, drwy unrhyw weithredu diwydiannol parhaus sy'n ymwneud â'n staff."*[104]

**114.** Mae'r Cynllun Blynyddol yn mynd ymlaen i nodi gwaith ychwanegol posibl i'w wneud gan Archwilio Cymru. Mae'n cyfeirio at oblygiadau estyn y ddyletswydd lles i wyth corff o bosibl, a drafodwyd â'r Pwyllgor yn ystod ei sesiwn graffu ar 9 Tachwedd 2022.

**115.** Mae hefyd yn cyfeirio at waith archwilio yng Nghorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd a monitro datblygiadau mewn perthynas â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

**116.** Mae'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys y DPA ar gyfer y flwyddyn.

## Adroddiad Interim

### Darparu'r rhaglen waith

**117.** Mae'r Adroddiad Interim yn datgan bod cyflawni gwaith cyfrifon wedi bod yn flaenoriaeth dros chwe mis cyntaf y flwyddyn a bod "cyfrifon y GIG a Llywodraeth Ganolog wedi'u cyflawni erbyn y terfynau amser a osodwyd"[105]. Mae'r Adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad Archwilio Cymru yn erbyn ei DPA, hyd at 30 Medi 2023. Mae ei DPA sy'n ymwneud â "C[h]yfran y cynhyrchion archwilio wedi'i chyflawni erbyn y dyddiad cau statudol gofynnol" yn dangos cyflawniad 95.8 y cant yn erbyn targed 100 y cant, gan dynnu sylw mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd yr eithriad.

[102] Cynllun Ffioedd 2023-24
[103] Cynllun Blynyddol 2023-24, tudalen 10
[104] Cynllun Blynyddol 2023-24, tudalen 10
[105] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 4

**118.** Mae Archwilio Cymru yn nodi bod adnoddau'n risg strategol allweddol i'r sefydliad a bod bodloni terfynau amser i gwblhau archwiliad o gyfrifon yn parhau i fod yn her:

> *"… mae pwysau ar adnoddau wedi golygu y bydd cyfrifon y sector llywodraeth leol yn cael eu cyflawni'n hwyrach na'r disgwyl a bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar yr amserlen gyflawni ar gyfer cyfrifon 2023-24."*[106]

**119.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar, esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio fod y sefyllfa gydag archwiliadau llywodraeth leol yn fwy amrywiol, gan ddweud y canlynol:

> *"I'm currently anticipating that of the 40 local government bodies, we will complete around 25 of those by the statutory deadline… which is not where we would want to be. But for all the reasons that we've discussed—staff turnover, a new auditing standard, the backlog, still, from COVID—that's the position that we're in."*[107]

**120.** Pan gafodd ei holi i ba raddau roedd trosiant staff yn effeithio ar gwblhau gwaith erbyn ei derfynau amser statudol, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y canlynol:

> *"It's huge. You can imagine that it's not even the level of vacancies that you're carrying, and we're carrying more vacancies than we would want to carry, and we're struggling to recruit to those vacancies; it's who you lose, as well. What we're losing is staff with considerable experience, and of course…. an audit could be 400 days, and if… you've got one audit lead…. they do 150 days, they do the planning, they start the interim work and then they leave, there is obviously then the knock-on impact."*[108]

**121.** Mae'r Adroddiad Interim yn dweud bod Tîm Arwain Gweithredol a Chyfarwyddwyr Archwilio Cymru wedi "archwilio ffyrdd o gynyddu capasiti i roi ein gwaith ar gyfrifon yn ôl ar y trywydd iawn". Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n ymwneud ag adnoddau, mae'r Adroddiad Interim yn nodi bod Archwilio

[106] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 4
[107] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 117
[108] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 119

Cymru wedi cyflwyno goramser, recriwtio myfyrwyr ar leoliad a dargyfeirio adnoddau staff o bob rhan o'r sefydliad.[109]

**122.** Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio ar hyn, gan ddweud y canlynol:

> *"We are looking at ways in which we can bring in additional staff, retain the staff that are qualifying… to move through the work a little bit faster, to catch up on some of this backlog. But as it stands… we will be starting the 2023-24 audits much later than we would like to, which will have an impact, then, on delivery timescales for next year. We need to be able to break the cycle, really".*[110]

## Cynnydd yn 2023-24 hyd yn hyn

**123.** Mae'r Adroddiad Interim yn nodi 16 o feysydd blaenoriaeth i'w gweithredu yn 2023-24. Fel rhan o hynny, mae camau'n cynnwys ymgorffori dulliau archwilio a safonau newydd a gweithio gyda chyrff archwiliedig i nodi amserlenni cyflawni.

**124.** Mae hefyd yn nodi y cynhaliwyd dau ddarn "sylweddol"[111] o ymchwil rhanddeiliaid annibynnol rhwng mis Chwefror a mis Mai 2023. Roedd yn cynnwys "cwestiynau mewn arolwg omnibws Cymreig rheolaidd",[112] yn ogystal ag arolygon ar-lein a chyfweliadau ansoddol manylach gyda rhanddeiliaid, a gynhaliwyd gan gwmni annibynnol. Mae Archwilio Cymru yn datgan yn ei adroddiad ei fod yn "falch o'r canlyniadau cadarnhaol".[113]

**125.** Mae'r Adroddiad Interim hefyd yn amlinellu cynnydd mewn materion sy'n ymwneud â staff. Mae'n dweud bod y Tîm Arwain Gweithredol wedi cyflwyno dull newydd o gyfleu ei negeseuon allweddol. Mae hefyd yn sôn am grŵp gorchwyl a gorffen sy'n datblygu diwylliant "Un Archwiliad Cymru".[114]

**126.** Mae Archwilio Cymru yn datgan ei fod wedi symud i ffwrdd o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil a bod ei ddull newydd o ddeall profiadau cyflogeion yn "galluogi mwy o hyblygrwydd a sgôp ar gyfer ymgysylltu".[115] Mae'r adroddiad yn nodi yr eir â rhai cwestiynau allweddol o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil i'r dull gweithredu newydd i sicrhau y gellir olrhain canlyniadau blaenorol. Mae grŵp gweithredu

[109] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 13
[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 121
[111] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 16
[112] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 16
[113] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 16
[114] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 22
[115] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 22

traws-sefydliadol wedi'i sefydlu i "wreiddio'r system a dylunio'r arolwg cyntaf",[116] a fydd yn cael ei gynnal yn yr hydref.

**127.** Pan ofynnodd y Pwyllgor iddi esbonio'r newid yn y dull gweithredu a sut y bydd yn cefnogi uchelgais Archwilio Cymru i ddatblygu diwylliant un Archwiliad Cymru, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd y canlynol:

> *"It will enable us to do that benchmarking against previous surveys to see how things have moved on, but it also is going to be shorter and more punchy in the way that it does that… staff have talked about… weariness in terms of the length of some of the survey activity they had to do. It's got questions in it on how teams work together, leadership, management."*[117]

**128.** Er bod yr arolwg ar agor ar hyn o bryd, aeth ymlaen i ddweud bod arwyddion cynnar yn awgrymu'r canlynol:

> *"… it's going to be an incredibly valuable tool to us, and I think we're in a position as an organisation where it will provide an important baseline against which we can begin to track the impact of the activities we have been doing, and we are tackling, in terms of well-being."*[118]

**129.** Mae'r DPA yn yr Adroddiad Interim hefyd yn dangos bod "Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau Lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr"[119], hefyd yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23[120]. Mae'r perfformiad hyd at 30 Medi 2023 yn dangos bod 80 y cant o hyfforddeion yn llwyddo y tro cyntaf, o gymharu hynny â 68.4 y cant, er bod hyn yn parhau i fod yn is na'r targed, sef 90 y cant.

**130.** Yn ôl yr Adroddiad Interim, mae'r adborth o symud swyddfa yng Nghaerdydd wedi bod yn gadarnhaol "ym mhob rhan o'r sefydliad"[121] ac mae'n defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i adleoli ei swyddfa yng ngogledd Cymru, a drefnwyd ym mis Medi 2023. Mae'r Adroddiad Interim hefyd yn amlinellu adolygiad o ganolfannau

[116] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 22
[117] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 125
[118] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 128
[119] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 29
[120] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 25
[121] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 8

teithio i staff.[122] Daeth ymgynghoriad â staff i ben ym mis Medi 2023 ac mae'r adborth "wedi bod yn gadarnhaol".[123]

**131.** Mae'r Adroddiad Interim hefyd yn amlinellu archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol sy'n mynd rhagddynt neu sydd i'w dechrau yn ystod gweddill 2023-24. Yn sgil problemau gydag adnoddau, gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr holl archwiliadau'n debygol o fynd yn eu blaenau. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol am yr adroddiad:

> *"it is an accurate reflection of where we think we are and can be. That said, undeniably, the resource pressure that we're experiencing in our accounts work is reflected in the areas of the organisation that deliver the value-for-money studies work. And one practical exemplification of that is that we are having to take any qualified staff in VFM studies teams out of those in order to support colleagues delivering the statutory work around accounts. So, you're absolutely right: it is squeezing our capacity, but that remains our most up-to-date reflection of what we think is reasonable to deliver in our work programme."*[124]

## Barn y Pwyllgor

**132.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Archwilio Cymru yn parhau i wynebu pwysau o ran ei staff a'i lwyth gwaith, sy'n adlewyrchu profiadau ehangach ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus am yr effaith y mae lefelau uchel o drosiant staff yn ei chael ar allu Archwilio Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, yn enwedig o ran colli staff profiadol. Rydym hefyd yn nodi bod hyn yn debygol o greu ôl-groniad mwy o waith yn 2024-25.

**133.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr ymdrechion i fynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith, ac ymdrechion Archwilio Cymru ynghylch diwylliant y sefydliad. Rydym hefyd yn nodi bod Archwilio Cymru wedi symud i ffwrdd o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ac mae ganddo ddiddordeb yn y dull gweithredu newydd y bydd yn ei ddefnyddio i ddeall profiadau cyflogeion. Serch hyn, rydym yn pryderu am gynaliadwyedd y sefyllfa bresennol ac yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr effaith y mae'r pwysau hyn yn ei chael ar les staff, yn ogystal ag ar allu Archwilio Cymru i gefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff.

---

[122] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 9
[123] Adroddiad Interim, Hydref 2023, Tudalen 9
[124] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 133

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y mae lefelau uchel o drosiant staff yn ei chael ar ei allu i fodloni terfynau amser statudol ar gyfer gwaith archwilio a'r hyn y mae'n ei wneud i liniaru'r heriau hyn.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- y gweithgareddau y mae'n eu gwneud i wella lles staff a sut yr adlewyrchir hyn yn yr arolwg staff;
- sut y mae'n darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i staff;
- sut y mae ei arolwg staff newydd yn cymharu â'r dull gweithredu blaenorol, a oedd yn defnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

# 5. Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025

**134.** Cafodd yr Amcangyfrif o Incwm a Threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ("yr Amcangyfrif")[125] ei lunio ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd a'i osod gerbron y Senedd ar 27 Hydref 2023, yn unol ag adran 20(1) o'r Ddeddf.[126]

**135.** O dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC osod eu hamcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau gerbron y Senedd erbyn 1 Tachwedd fan bellaf. Mae Rheol Sefydlog 20.22 yn datgan y canlynol:

> *"Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18.10(i) ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt."*[127]

## Cyd-destun

**136.** Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol Ddatganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru i'w hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol.[128]

**137.** Ym mis Gorffennaf 2021, cytunodd y Pwyllgor y dylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol barhau i ddilyn y datganiad presennol o egwyddorion[129] wrth lunio eu dogfennau cyllidebol.

**138.** Ar 12 Gorffennaf 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor yn nodi'r ffactorau amrywiol i lywio'r gwaith blaengynllunio ariannol i gyrff a ariennir yn uniongyrchol wrth iddynt lunio eu cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, gan ddweud y canlynol:

> *"… mae ein cynlluniau ar gyfer eleni a'n cynlluniau dangosol ar gyfer 2024-25 yn cynrychioli sefyllfa gyllidebol dynn iawn. Mae'n ymddangos bod y rhagolygon ar gyfer dyraniadau pellach gan*

[125] Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb – Amcangyfrif 2024-25
[126] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[127] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 20.22
[128] Datganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol, Mai 2019
[129] Datganiad o egwyddorion, Gorffennaf 2021

> *Lywodraeth y DU yn gyfyngedig iawn ac mae cynnydd parhaus mewn prisiau yn achosi pwysau cynyddol ar yr holl wasanaethau cyhoeddus a ariennir gan gyllideb Llywodraeth Cymru."*[130]

**139.** Yn ei wybodaeth ategol, mae Archwilio Cymru yn dweud bod llythyr y Gweinidog "yn ei gwneud yn glir nad oes llawer o dwf mewn termau arian parod yng nghynlluniau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25". Mae'n dweud bod y pwysau ar gyllid cyhoeddus yn "gwneud gwaith Archwilio Cymru yn fwy hanfodol fyth" ac yn nodi bod dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant "dim ond 1.4% yn uwch mewn termau arian parod ar gyfer 2024-25 nag oedd ar gyfer 2023-24".[131] Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at lythyr y Gweinidog yn ystod trafodaethau â'r Pwyllgor a datganodd y canlynol:

> *"… the proposal before you is for an increase in our baseline funding of 5.9 per cent resource, and I'm conscious that, if you read the estimate this year, it has a slightly different tone and focus to previous years. That, in part, is very much reflective of the Minister's letter. We're very cognisant of the pressure and context that she describes, and, indeed, you'll see in the estimate that we've delivered some very significant cost reductions and efficiencies in the last few years, and we continue to do so."*[132]

**140.** Clywodd y Pwyllgor y canlynol yng nghyd-destun y pwysau ar gyllid cyhoeddus:

> *"There has never been a more important time for us to be gaining value for money out of every pound of public money that we spend, or for you as Senedd Members to have the assessment that we can provide on how finances are being managed in the public sector, and wider governance issues as well."*[133]

---

[130] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 12 Gorffennaf 2023
[131] Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb – Amcangyfrif 2024-25
[132] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 8
[133] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 9

## Trosolwg

**141.** Ar gais y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn dilyn ei waith craffu ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2020-21 a'i addasu,[134] cyflwynir Amcangyfrif 2024-25 mewn dwy ran:

- Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb
- Rhan 2 – Gwybodaeth ategol

**142.** Mae Archwilio Cymru yn cyflwyno'r amcangyfrif fel cynnydd i'w "[]alwad gyffredinol ar gyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn 2024–25" o 5.9 y cant. Mae'n dweud nad oes "unrhyw gynnydd mewn arian parod" o'i gymharu â'i Amcangyfrif cychwynnol ar gyfer 2023-24.[135]

**143.** Mae Archwilio Cymru yn dweud bod tri phrif sbardun ar gyfer y cynnydd sylfaenol i'r alwad ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef:

- Cyflogau staff;
- Ehangu'r cynlluniau prentisiaeth a hyfforddeion graddedig; ac
- Y cynnydd ym mis Ebrill 2024 yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

**144.** O ran cyflogau staff, yn ôl yr Amcangyfrif mae'n:

> *"... ceisio cyllid i fynd i'r afael â phwysau mwy uniongyrchol ac acíwt sy'n bygwth ein gallu i gyflawni disgwyliadau'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r heriau recriwtio, cadw a morâl sy'n deillio o godiadau cyflog islaw yr hyn a welwyd yng ngweddill y sector cyhoeddus dros y ddwy flynedd ddiwethaf; a'r gystadleuaeth ymosodol am staff yr ydym yn ei hwynebu o'r sector preifat, yn Lloegr yn bennaf."*[136]

**145.** Ac mae'n nodi'r canlynol o ran y cynllun hyfforddeion:

> *"Mae'r Amcangyfrif hwn yn adlewyrchu'r angen am fuddsoddiad mewn recriwtio, hyfforddi a datblygu'r staff sydd â'r cymwysterau proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor Archwilio Cymru."*[137]

[134] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid (y Bumed Senedd) – Amcangyfrif wedi'i addasu o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a Chynllun Ffioedd 2020-21, 15 Ionawr 2020
[135] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 3
[136] Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb – Amcangyfrif 2024-25
[137] Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb – Amcangyfrif 2024-25

**146.** Ariennir tua 34 y cant o gyllideb Archwilio Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu o ffioedd.[138]

**147.** Gan gynnwys gweithgarwch a ariennir gan ffioedd ond heb gynnwys cyfalaf a symudiadau mewn cyfalaf, gwariant arfaethedig Archwilio Cymru ar gyfer 2024-25 yw £26.625 miliwn ar gyfer adnoddau a £26.093 miliwn ar gyfer arian parod, sef cynnydd £2.350 miliwn ar gyfer adnoddau (neu 9.7 y cant) neu £2.178 miliwn ar gyfer arian parod (neu 9.1 y cant) o gymharu hynny â 2023-24. Amcangyfrifir y bydd incwm o ffioedd yn cynyddu £1.343 miliwn (neu 8.3 y cant), mewn termau arian parod ac adnoddau, i £17.476 miliwn, o'i gymharu â 2023-24.

**148.** Cynigiodd Archwilio Cymru Amcangyfrif Atodol 2023-24 ym mis Awst 2023,[139] a drafododd y Pwyllgor ar 20 Medi 2023.[140] Nid yw'r cymariaethau a wnaed gan Archwilio Cymru yn adlewyrchu'r adnoddau ychwanegol a geisiwyd yn y Gyllideb Atodol ar gyfer 2023-24.

**149.** Gofynnodd y Pwyllgor i Gadeirydd Bwrdd SAC sut y mae'n cael sicrwydd bod y gyllideb yn rhesymol, a pha her y mae'r Cadeirydd a Bwrdd SAC yn ei chynnig wrth lunio'r Amcangyfrif. Wrth ymateb, esboniodd fod y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

> *"… contribute to the direction of travel, but also to explore some of the assumptions that underpin the final estimate as it's prepared, to make sure that we're comfortable with the estimate so that I can sign it confidently in terms of presenting it to you."*[141]

**150.** Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… I can assure you that I'm satisfied that the budget proposal is reasonable in the circumstances and I certainly support the priorities that are set out in this estimate. As Adrian has very clearly said, staff have to be our priority; we have to have sufficient, highly trained, qualified, motivated staff to be able to deliver the service that we think that Wales deserves …*
>
> *I can assure you that scrutiny has taken place within the Wales audit office. I support the estimate as it's presented."*[142]

[138] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2023-2024, Tudalen 22
[139] Amcangyfrif Atodol 2023-24, Awst 2023
[140] Agenda'r Pwyllgor Cyllid, 20 Medi 2023
[141] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 15
[142] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraffau 17-18

**151.** Er mwyn deall yn well y lefelau cyffredinol o arian parod ac adnoddau y gofynnir amdanynt yn 2024-25, gofynnodd y Pwyllgor i Archwilio Cymru esbonio'r gwahaniaeth rhwng lefel y cynnydd mewn adnoddau ac arian parod. Aeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol ymlaen i ddweud bod dau ffactor a gyfrannodd at y ffigur uwch ar gyfer adnoddau:

> *"The first one relates to the international financial reporting standards 16 costs associated with our new offices in Capital Quarter. This is the way in which we now account for lease assets. We account for the lease over the whole of its lifetime, over the whole 10-year period, and we equalise the costs in each of those 10 years. But, as part of the deal for the new office, we have a rent-free period in our Cardiff office, so it means we need less cash than we need resource in the first year of the lease. The second reason for the difference is the one that I've just mentioned before around the cash requirement to cover the release of the dilapidations provision to make full and final settlement following the move out of Cathedral Road. And we won't require that in 2024-25; that'll be settled."*[143]

## Llinell sylfaen

**152.** O ran adnoddau, mae Archwilio Cymru yn gofyn am £9.459 miliwn o gyllid. Mae hyn yn cymharu ag £8.452 miliwn yn 2023-24. Cyn gwneud addasiadau i'r llinell sylfaen, cynnydd £1.0 miliwn neu 11.9 y cant yw hyn.

**153.** Y gofyniad arian parod net y mae Archwilio Cymru yn gofyn amdano ar gyfer 2024-25 yw £9.127 miliwn. Mae hyn yn cymharu ag £8.642 miliwn ar gyfer 2023-24. Cynnydd £485,000 neu 5.6 y cant yw hyn cyn gwneud addasiadau i'r llinell sylfaen.

**154.** Mae Archwilio Cymru yn addasu ei 'linell sylfaen' i ddileu rhai eitemau o wariant. Mae'r Archwilydd Cyffredinol mai darparu cymhariaeth ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn yw'r rheswm dros hyn.[144] Eleni, mae'r eitemau hyn yn cynnwys:

- £130,000 mewn cyllid cylchol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol;
- Gostyngiad £354,000 sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r Lwfans Teithio.

[143] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 37
[144] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 21

**155.** Pan fydd yr eitemau uchod wedi'u heithrio, y cynnydd mewn cyllid mewn termau adnoddau yw £523,000 ac £1,000 mewn termau arian parod.

**156.** Mae Arddangosyn 1 o wybodaeth ategol Archwilio Cymru yn amlinellu'r newidiadau yn ei alwad ar Gronfa Gyfunol Cymru yn 2024-25.[145] Mae hyn yn cynnwys ffigur ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod £522,000 i'r newid yn y llinell sylfaenol ar gyfer arian parod.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

**157.** Mae'r gyllideb sylfaenol yn cynnwys £150,000 sy'n ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol. Darperir cyllid ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol drwy Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n golygu bod cyrff cyhoeddus cyfranogol yng Nghymru yn cyfranogi'n rhad ac am ddim. Heb y cyllid hwn, mae Archwilio Cymru yn dweud y byddai angen trosglwyddo costau'r gwaith hwn yn uniongyrchol i gyrff cyfranogol drwy ffioedd. Mae Archwilio Cymru yn dweud y gallai hyn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y cyrff sy'n cymryd rhan.[146]

**158.** Bob yn ail flwyddyn, mae costau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cynyddu i dalu am daliadau i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwirio data. Cynigir mai £280,000, sef cynnydd £133,000 o'i gymharu â 2023-24, yw cyfanswm y cyllid ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2024-25, sy'n flwyddyn o gostau uwch. Mae'r cyllid arfaethedig yn cynnwys £3,000 ar gyfer cynnydd parhaus yng nghost gwaith archwilio, yn seiliedig ar gyfradd ffioedd ac amser staff. Fodd bynnag, y disgwyliad yw y bydd y swm a geisir yn lleihau £130,000 yn 2025-26.

**159.** Wrth gyflwyno ei Amcangyfrif, mae Archwilio Cymru yn cynnwys y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnydd/gostyngiadau bob yn ail flwyddyn y tu allan i'w gyllideb sylfaenol, sy'n ddull gweithredu y mae wedi'i fabwysiadu yn y gorffennol.[147]

**160.** Yn 2022-23, tanwariwyd gwariant ar y Fenter Twyll Genedlaethol a dychwelwyd cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru.[148] Pan gafodd ei holi a fyddai'r cyllid a ddarperir ar gyfer 2024-25 yn darparu'r rhaglen lawn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio ei bod yn disgwyl gwario'r arian yn 2023-24, a bod gwaith yn mynd rhagddo:

> *"… on a data-matching pilot on general practitioner registration. We're also doing some data analytical work on community*

[145] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 4
[146] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 25
[147] Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb – Amcangyfrif 2023-24
[148] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Medi 2023, paragraff 116

*pharmacy as well. And we would be looking next year to do something similar in the analytical fraud space as well. So, the short answer is, no, we're not anticipating a similar problem occurring this year and next year."*[149]

## Lwfans teithio

**161.** Mae Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ad-dalu £708,000 o gyllid a ddefnyddiwyd i gefnogi'r taliad ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r Lwfans Teithio, a ddarparwyd drwy Gronfa Gyfunol Cymru.[150] Yn ei Amcangyfrif, mae Archwilio Cymru wedi gosod ad-dalu'r cyllid hwn y tu allan i'w gyllideb sylfaenol.

**162.** Gwerth yr addasiad hwn oedd gostyngiad £354,000 yng nghyllideb 2023-24. Ar gyfer 2022-23, dychwelwyd £354,000 i Gronfa Gyfunol Cymru drwy Gyllideb Atodol Gyntaf Archwilio Cymru.[151]

**163.** Cadarnhaodd Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ei fod wedi talu'n ôl yn llawn y cyllid £708,000 o Gronfa Gyfunol Cymru, ac nad yw'r Amcangyfrif yn cynnwys addasiad cysylltiedig. Felly, y flwyddyn a gwmpesir gan yr Amcangyfrif, 2024-25, fydd y flwyddyn gyntaf ar ôl y cyfnod cyllid gostyngedig hwn, gan nad oes addasiad i ddileu £354,000 o'r llinell sylfaen. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

*"There's no more further repayment needed. The £354,000 is not an increase in our budget. It is the sum that we have been repaying over the last two years, but there are still ongoing costs for us of the travel scheme and adjustments we've had to make in the light of that. So that has always needed to be included in the baseline figure."* [152]

**164.** Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*"For this year, below the line, we also have the adjustment from the payback that we've been making in the last two years around the travel allowance. We've kept it there for exactly the same reason. It would be misleading to have included that in*

[149] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraffau 17-18
[150] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 4
[151] Amcangyfrif Atodol 2022-23, Mehefin 2022
[152] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 34

> *the baseline over the last two years and now. From now on, it will simply be rolled into the baseline.*"[153]

**165.** At hynny, cadarnhaodd Archwilio Cymru i'r Pwyllgor y byddai'r newidiadau'n arwain at arbedion parhaus £200,000 y flwyddyn o 2024-25, ac y byddent yn cael eu hadlewyrchu yn Amcangyfrifon a Chynlluniau Ffioedd yn y dyfodol.[154]

## Symudiadau mewn cyfalaf gweithio

**166.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi gofyn am wybodaeth gan Archwilio Cymru am ei 'symudiadau mewn cyfalaf gweithio' a'i fod yn nodi addasiadau a wnaed i'w Amcangyfrif adnoddau ar ddiwedd y flwyddyn i roi cyfrif am gynnydd neu ostyngiadau i werth dyledwyr, credydwyr a darpariaethau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Archwilio Cymru wedi cynnwys swm £200,000 at y diben hwn yn 2024-25, o'i gymharu â £550,000 yn 2023-24. Mae'n dweud mai'r rheswm dros hyn yw "[c]aniatáu eitem ddigwyddiadol arferol ar gyfer symudiadau ar ddiwedd y flwyddyn".[155] Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol ei bod yn amhosibl rhagweld ar ddechrau'r flwyddyn pa symudiadau fydd mewn dyledwyr, credydwyr a darpariaethau.[156]

**167.** Y llynedd, dywedodd Archwilio Cymru fod y ffigur £550,000 ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gweithio sy'n gysylltiedig â newidiadau arferol ar ddiwedd y flwyddyn, ond hefyd y gofyniad i ddefnyddio rhan o'i ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau sy'n gysylltiedig â symud swyddfa yng Nghaerdydd.[157] Yn ôl y wybodaeth ategol i Amcangyfrif 2023-24:

> *"Mae darpariaeth ar gyfer hyn wedi'i gronni yn ein cyfrifon dros nifer o flynyddoedd ac felly nid oes angen sicrwydd adnoddau ychwanegol. Mae uchafswm gofyniad arian parod o £550,000 wedi'i gynnwys yn ein Hamcangyfrif gydag unrhyw arian parod nas defnyddiwyd yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru."*[158]

**168.** Mae'r wybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif 2024-25 yn cynnwys tabl yn yr atodiadau: "Cyllideb refeniw 2024-25".[159] Mae'r tabl hwn yn nodi gwerthoedd symudiadau mewn cyfalaf gweithio ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Mae'n dangos

---

[153] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 22
[154] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 32
[155] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-25, tudalen 21
[156] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 26
[157] Llythyr gan Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid
[158] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2023-24, tudalen 27
[159] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 31

gostyngiad £350,000 fel rhan o'r ffigurau newid o flwyddyn i flwyddyn, sy'n gysylltiedig ag arian parod. Nid oes gwerth yn gysylltiedig â symudiadau mewn cyfalaf gweithio ar gyfer adnoddau. Cyflwynir y ffigur hwn ochr yn ochr â'r newid flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer cyfanswm treuliau, cyfanswm incwm, cyfalaf a'r ffigur ar gyfer y cyfanswm i'w ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru.

**169.** Heriodd y Pwyllgor Archwilio Cymru ar gyflwyno'r ffigurau yn ei Amcangyfrif a gofynnodd am eglurhad o'r dull a ddefnyddiwyd i gyrraedd y cyfansymiau a ddarperir, yn enwedig o ran y newid arian parod. Nododd y Pwyllgor fod ffyrdd gwahanol y gellid dehongli'r newid cyllid, gan gynnwys cyfanswm y newid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; y newid o ystyried y cyllid dadfeiliadau untro yn 2023-24 a'r newid o ystyried yr addasiadau llinell sylfaen. Wrth ymateb, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

> *"By far the most meaningful one is the 5.9 per cent increase in resource… We have this issue each year, I think, with having to present to you what we describe as the baseline, because in any ordinary year we have the biannual national fraud initiative moneys coming in, coming out. So, we keep that below the line so as to give you a meaningful year-on-year comparison."*[160]

**170.** Pan ofynnwyd iddo nodi a fyddai'r costau untro £350,000 at ddibenion dadfeiliadau yn cael eu cyflwyno i gyllideb barhaus Archwilio Cymru, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol na fyddai hynny'n digwydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol mai dim ond £200,000 fyddai'n cael ei drosglwyddo:

> *"We're not rolling that forward; what we're rolling forward is the £200,000, the standard notional sum."*[161]

**171.** Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r gostyngiad o £550,000 i £200,000, rhwng Amcangyfrif 2023-24 a 2024-25 yn gwrthbwyso'r cynnydd cyffredinol a amlinellwyd yn y gyllideb, a'r cynnydd canrannol a amlinellwyd yn yr Amcangyfrif. Atebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol:

> *"It doesn't affect the percentage increase, it's just simply something to help us manage our cash position during the year because of those unexpected movements that we might have. You can't predict at the start of the year what your debtors,*

[160] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 21
[161] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 28

*creditors and provisions are going to look like in 12 months' time."*[162]

## Costau gweithredu

### Cyflogau staff

**172.** Mae Archwilio Cymru yn dweud bod angen codiad cyflog i'w staff oherwydd:

> *"… bod cynnydd yn Archwilio Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod ar ei hôl hi o'i gymharu â mannau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a chostau byw."*[163]

**173.** Dywed Archwilio Cymru bod angen iddo "[dd]echrau dod â'n graddfeydd cyflog yn unol ag eraill, ac i atal staff rhag ymadael i rannau o'r sector cyhoeddus lle mae'r cyflog yn well ac i'r sector preifat". Mae'n bwriadu gwneud iawn i staff am y "diffyg" dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chodiad cyflog 3 y cant a dyfarnu 5 y cant ar gyfer codiad cyflog "fel amcangyfrif" yn 2024-25.[164]

**174.** Nid yw'r Amcangyfrif yn nodi gwerth arian parod y cynnydd sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog. £23.444 miliwn fydd costau staff cyffredinol, a oedd yn cynnwys costau a ariennir drwy incwm ffioedd, yn 2024-25, mewn termau arian parod ac adnoddau. Mae Archwilio Cymru yn nodi'r canlynol:

> *"Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd y twf blynyddol cyfartalog mewn cyflogau rheolaidd ar gyfer mis Mai i fis Gorffennaf 2023 yn 7.8% yn gyffredinol, ac yn 6.6% yn y sector cyhoeddus – o'i gymharu â 4% i staff Archwilio Cymru."*[165]

**175.** Mae'r amcangyfrif yn mynd ymlaen i ddatgan bod:

> *"cyrff archwilio cyhoeddus eraill wedi dyfarnu codiadau cyflog uwch i'w staff. Bu cynnydd o 3% a 6.5% yng nghyflog staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chynigodd Audit Scotland gynnydd o 5.4% a 6% i'w staff yn y drefn honno yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cynnydd cyflogau eleni ar gyfer staff y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, y GIG a rhannau eraill*

[162] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 101
[163] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2023-24, tudalen 3
[164] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2023-24, tudalen 6
[165] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2023-2024, Tudalen 5

> *o'r sector cyhoeddus i gyd yn fwy na'r cynnydd yn Archwilio Cymru."*[166]

**176.** Mae'r wybodaeth ategol hefyd yn nodi, fel rhan o newidiadau i'r Lwfans Teithio, y cytunodd Archwilio Cymru i gynnydd £900 i'r holl bwyntiau cyflog, ac eithrio'r rhai i hyfforddeion a phrentisiaid y cafodd eu cyflogau eu haddasu yn 2022-23, ar wahân i unrhyw ddyfarniad cyflog, o fis Ebrill 2024.[167] Trafodwyd cynnydd at y dibenion hyn â'r Pwyllgor o'r blaen.[168] Ychwanegodd Archwilio Cymru y byddai hyn yn cael ei ariannu o'r arbedion posibl o'r newidiadau i'r Cynllun Lwfans Teithio.

**177.** Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am gyfanswm gwerth arian parod y dyfarniadau cyflog yn 2024-25 ar gyfer yr elfennau a ariennir drwy Gronfa Gyfunol Cymru a sut y cyfrifwyd lefel y cynnydd a gynigiwyd. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

> *"So, the total value—. I think, if you look at the figures in appendix 1, that's where you'll see the total staff costs for the organisation. The increase is £2.4 million for the coming year. Of that, around £1.6 million will reflect the proposed uplift in salaries for next year, and the share of that that is apportioned to the WCF will be around a third, so £540,000 or so, and the remainder obviously reflected in our fees."*[169]

**178.** Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"… we've benchmarked ourselves against our counterpart UK audit bodies, the Welsh Government and the Welsh civil service, the NHS and local government over the last two years, and we have lagged behind all of those bodies and sectors in each of those years… We think a 3 per cent increase is a reasonable one to reflect the degree of lag over the last couple of years; it certainly wouldn't put us back at the top of that group, but it would put us more in line with them. And a further 5 per cent uplift we feel is reasonable in the current economic circumstances and what we're seeing and hearing in the wider sector, cognisant of exactly where we started this conversation—*

[166] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2023-24, tudalen 6
[167] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2023-24, tudalen 6
[168] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Tachwedd 2021, paragraff 92
[169] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 40

*what is reasonable and affordable in the context of the overall pressures on the public purse."*[170]

**179.** Mae Archwilio Cymru yn dweud fod "cyfradd trosiant uwch nag erioed o'r blaen", sef dros 15 y cant yn 2022-23, a bod angen iddo gynnig "cynnydd ystyrlon mewn cyflogau" er mwyn "dal i fyny â'r cynnydd a welwyd mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a chynyddu ein cystadleurwydd o'i gymharu â'r sector preifat".[171]

**180.** Mewn perthynas â recriwtio a chadw archwilwyr cymwysedig a sut y byddai dyfarniadau cyflog yn cael eu cymhwyso i staff, clywodd y Pwyllgor y canlynol:

*"At this stage, we've not decided that… we've yet to receive formal requests from either of our trade unions, but I anticipate that we will, and, obviously, we'd be very interested to hear their views on exactly that point—whether their preference is to see an across-the-board uplift for all staff or to focus on particular grades or skills. Alongside that, we have commissioned some work from a specialist pay review body called QCG, who specialise in the regulatory sector, so the intention behind that is to get some further data on whether there are cases to be made for particular settlements."*[172]

**181.** Aeth y Pwyllgor ymlaen i holi a oedd Archwilio Cymru wedi gofyn am adborth gan staff oedd yn gadael y sefydliad, i gael gwybod eu rhesymau dros wneud hynny. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod cyfweliadau ymadael yn cael eu cynnig i'r holl staff, er nad yw pawb yn derbyn y cynnig hwnnw. Dywedodd y canlynol:

*"For those who have been leaving to private sector firms, pay and career progression is undoubtedly one of the pressures. Across the wider group, it's fair to say that people leave and move on for a variety of different reasons—lifestyle choices, family pressures, caring responsibilities, all sorts of things—but pay and career progression is undoubtedly in the mix, yes."*[173]

**182.** Pan gafodd ei holi a oedd Archwilio Cymru yn fodlon y byddai'r cynnydd a amlinellwyd yn ei Amcangyfrif yn datrys pwysau recriwtio a chadw yn y sefydliad, datganodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

---

[170] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 44
[171] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2023-24, tudalen 13
[172] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 47
[173] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 49

> *"We will not be at a level where we can compete with the baseline remuneration that's offered by some of the other firms, but, in our view, this not only will take us to a better position where staff will see and recognise, essentially, more comparability, certainly with their peers in the wider public sector, but I think for us it's also about the signal that it sends to staff about how we and the Senedd value them and value their work."*[174]

**183.** Cefnogodd Cadeirydd y Bwrdd y sylwadau hyn, gan ddweud y canlynol:

> *"I think this is an opportunity to reset in terms of that and make sure that staff realise they are valued and the work they do is important."*[175]

**184.** Mae Archwilio Cymru hefyd wedi cynnig gwneud taliad costau byw £1,500 i staff yn 2023-24, drwy Gyllideb Atodol[176], a drafododd y Pwyllgor Cyllid ym mis Medi 2023 ac a fydd yn mynd gerbron y Senedd i'w gymeradwyo ym mis Chwefror 2024.

### Cynllun hyfforddeion

**185.** Mae Archwilio Cymru yn gweithredu rhaglen barhaus o gyfleoedd i raddedigion a phrentisiaid. Mae'n cyflogi tua 60 o hyfforddeion a phrentisiaid ar hyn o bryd. Mae cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn cefnogi:

- Secondiadau i gyrff sector cyhoeddus Cymru;
- Gwella amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol ymhlith y gweithlu;
- Ariannu cynhadledd flynyddol i hyfforddeion y sector cyhoeddus ar draws Cymru;
- Costau hyfforddi'r rhaglen hyfforddi i raddedigion, a fyddai, fel arall, yn cael eu casglu o ffioedd.

**186.** Mae'r wybodaeth ategol yn dweud mai nod buddsoddi yn y cynllun hyfforddeion yw cryfhau, ac ehangu'r "llif o dalent â chymwysterau ariannol i helpu i ddiwallu anghenion Archwilio Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus

[174] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 53
[175] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 54
[176] Amcangyfrif Atodol 2023-24, Medi 2023

ehangach".[177] Mae Archwilio Cymru yn cynnig cynyddu'r cyllid ar gyfer y maes hwn £220,000.

**187.** Bydd cyllid ychwanegol yn galluogi Archwilio Cymru i gynyddu nifer y graddedigion a phrentisiaid sy'n cael eu recriwtio bob blwyddyn. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith allgymorth a marchnata ac i "ehangu'r profiad hyfforddi". Mae hefyd yn dweud y bydd yn gwneud "rhai newidiadau ymarferol i ddyluniad y rhaglen i leihau nifer y staff newydd gymhwyso a gollir yn fuan ar ôl iddynt gymhwyso".[178]

**188.** Mae'r wybodaeth ategol yn nodi na fydd budd y newidiadau i'r rhaglen i'w gweld am "rai blynyddoedd"[179] gan fod y cynlluniau'n rhedeg dros nifer o flynyddoedd.

**189.** Yn 2023-24 cynyddodd Archwilio Cymru swm y cyllid ar gyfer y rhaglen £50,000 i adlewyrchu costau hyfforddi uwch disgwyliedig i hyfforddeion graddedig. Yn ôl y wybodaeth ategol, mae'r costau ychwanegol wedi bod yn llai na'r disgwyl a bydd y cyllid cysylltiedig y gofynnir amdano yn lleihau £30,000. Fodd bynnag, mae £50,000 ychwanegol wedi'i gynnwys i ariannu codiadau cyflog i staff a gefnogir gan y cynllun, sy'n golygu mai £240,000 (o £630,000 i £870,000) yw'r cynnydd cyffredinol yn y maes hwn.

**190.** Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y byddai'r cyllid ychwanegol yn mynd tuag at recriwtio tri hyfforddai a chyfle lleoliad gwaith.[180]

**191.** O ran cadw staff, gofynnodd y Pwyllgor am y camau roedd Archwilio Cymru yn eu cymryd i annog staff i aros yn y sefydliad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y canlynol:

> *"I think all the feedback we've had suggests that we're a good employer…we try to recruit people who not only want to be accountants, but want to work in the public sector, and I think we carry that on through their training, which is why, historically, we've been very good at retaining trainees as qualified accountants."*[181]

[177] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 3
[178] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2024-25, tudalen 15
[179] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2024-25, tudalen 15
[180] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 57
[181] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 57

**192.** Aeth ymlaen hefyd i roi sylw i rywfaint o'r adborth y mae Archwilio Cymru wedi'i gael gan staff newydd gymhwyso wrth adael y sefydliad a gwnaethant awgrymu bod y diffyg sicrwydd wrth i ddiwedd eu contract cyfnod penodol agosáu, yn ffactor:

> *"One of the things that we're trying to do now is to actually give them that certainty earlier. So, for example, for the cohort due to leave us next September, we're looking at how many vacancies will we have....they want certainty, and I can understand that."*[182]

**193.** Mae cyllid Cronfa Gyfunol Cymru hefyd yn cael ei ddefnyddio i gynnal Cyfnewidfa Arfer Da Archwilio Cymru, a ddarperir yn rhad ac am ddim i gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Cymru. Mae'r cyllid ar gyfer y maes hwn yn cynyddu yn unol â'r cynnydd ffioedd arfaethedig yn 2024-25.

**194.** Cost y Gyfnewidfa Arfer Da yn 2023-24 oedd £575,000 a chynigir y bydd yn cynyddu £36,000 i £611,000, yn 2024-25.

**195.** Wrth ymateb i ymholiad y Pwyllgor ynghylch pam y mae cyllid Archwilio Cymru ar gyfer 'gwaith archwilio nas ariennir trwy ffioedd' a'r Gyfnewidfa Arfer Da yn cynyddu yn unol â'r cynnig am ffioedd, datganodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol:

> *"... we treat staff who are delivering our GPX programme in the same way as other staff, where we recover the full cost, including overheads, through fees, and we treat our GPX staff in exactly the same way. So, that's why they're increasing."*[183]

## Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr

**196.** Mae Archwilio Cymru yn nodi y cynhelir prisiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil bob pedair blynedd, sy'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i bennu cyfraddau cyfraniad y cyflogwyr. Mae adroddiad prisio 2020 wedi'i gyhoeddi ac, ar ddiwedd mis Medi 2023, cafodd cyflogwyr eu hysbysu am y cyfraddau cyfraniadau newydd a fydd yn cael eu talu o fis Ebrill 2024. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Yn dilyn trosglwyddo pob aelod gweithredol i alffa ar 1 Ebrill 2022, cytunwyd nad yw'r strwythur ar sail cyflog blaenorol yn*

---

[182] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 58
[183] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 63

*briodol mwyach. Felly, bydd cyfraniad cyflogwr safonol yn cael ei gyflwyno."*[184]

**197.** Mae Archwilio Cymru yn dweud bod newidiadau i'r gyfradd ddisgownt yn golygu bod cost darparu buddion wedi cynyddu ac y bydd y gyfradd gyfartalog o ran cyfraniad y cyflogwr yn cynyddu i 28.97 y cant.

**198.** Yn 2019-20, gofynnwyd am £732,000 ychwanegol yng Nghyllideb Atodol Archwilio Cymru[185] ar gyfer costau uwch cyfraniadau pensiwn y cyflogwyr.

**199.** Mae Archwilio Cymru yn dweud y bydd y gost hon "ychydig dros"[186] £90,000. Mae'n dweud y bydd y Trysorlys yn talu'r gost hon yn ganolog, gan nodi Datganiad Gweinidogol o 30 Mawrth 2023. Telir £20,000 o'r gost hon o Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y gweddill yn cael ei dalu o ffioedd uwch i gyrff archwiliedig.

**200.** Pan gafodd ei holi a oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod cyllid ar gael i gefnogi'r gost hon, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol y canlynol:

> *"There's been a signal from the Treasury that the funding will be available. That's flowed through to Welsh Government and then on to bodies like ourselves. Of course, we don't know the detail yet of the Welsh Government budget, but I understand that that'll be confirmed later this month with the November budget statement."*[187]

### Gwaith archwilio nas ariennir trwy ffioedd

**201.** Gwaith archwilio a ariennir drwy Gronfa Gyfunol Cymru yw'r maes mwyaf o gyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn yr Amcangyfrif. Yn 2024-25, cynigir y bydd hyn yn cynyddu £314,000 i £4.535 miliwn. Mae'r costau ychwanegol yn rhoi cyfrif am ariannu Archwiliadau ac Astudiaethau Gwerth Cenedlaethol ac Astudiaethau o Lywodraeth Leol, gan gynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[188] ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog perthnasol. Mae'r Amcangyfrif hefyd yn sôn am gymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Senedd yn ehangach.

[184] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2024-25, tudalen 15
[185] Amcangyfrif Atodol 2019-20, Mai 2019
[186] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 6
[187] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 84
[188] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**202.** Awgrymir y bydd y cyllid hwn yn cynyddu yn unol â'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd. Nodir £41,000 ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynnig i estyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[189] i gyrff ychwanegol, gan gynnwys costau pontio. Yn ôl yr Amcangyfrif, "Rydym yn rhagweld y byddai'r gost flynyddol sylfaenol hon yn digwydd bob blwyddyn yn ystod cylch adrodd 2025–2030, a godir fel y bo'n briodol yn unol â'n Hamcangyfrif ehangach".

**203.** Ar y pwynt hwn, holodd y Pwyllgor a oedd Archwilio Cymru wedi gofyn am drafodaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch costau ac a fyddai cyllid ychwanegol ar gael i'w swyddfa at y dibenion cysylltiedig. Clywodd y Pwyllgor y canlynol:

> *"…we speak regularly, and certainly our offices also liaise very frequently. And on this issue, I've been talking a lot with the Welsh Government as well about the cost implications of the proposals to expand the Act.*
>
> *As for the commissioner's own funding, he's funded in an entirely different way; he's funded directly from the Welsh Government. I know he will have been speaking to the Welsh Government about the cost implications for him of the extension, but I'm afraid I'm not privy to the outcome of those conversations."*[190]

**204.** Y llynedd, cynigiodd Archwilio Cymru newid rhywfaint o'i gyllid sy'n gysylltiedig â gwaith archwilio perfformiad lleol o gael ei ariannu drwy ffioedd i gael ei ariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor, os oedd Archwilio Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig, y dylai Archwilio Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am yr ymholiadau a godwyd gan Lywodraeth Cymru a hynt y trafodaethau hynny, wrth iddynt ddigwydd[191]. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth ategol yn nodi na allai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei chefnogaeth i'r cynnig hwn ac mae Archwilio Cymru wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y newid.[192]

## Costau rhedeg

**205.** Mae cyfraniad at gostau rhedeg yn cyfrif am £2.853 miliwn o gyfanswm yr alwad ar Gronfa Gyfunol Cymru mewn termau adnoddau. Mae hyn yn ostyngiad

[189] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[190] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraffau 65 a 66
[191] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, argymhelliad 13
[192] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 28

£70,000 o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r rhain yn gostau "na ellir eu codi'n rhesymol ar gyrff archwiliedig drwy ffioedd".[193]

**206.** Yn 2024-25, bydd Archwilio Cymru yn lleihau ei alwad ariannol ar Gronfa Gyfunol Cymru £100,000, gan adlewyrchu cyfnod di-rent ar gyfer prydles ei swyddfa yng Nghaerdydd.

**207.** Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd, pan ddaw'r cyfnod di-rent i ben, na ddylai ddisgwyl cynnydd mewn costau ar gyfer 2025-26 at y diben hwn. Wrth ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol na fyddai'n disgwyl newid mewn costau yn y flwyddyn i ddod a nododd y canlynol:

> *"Accounting treatment requires us to account for the cost of the lease in equal installments over the lifetime of the lease—that's over a 10-year period. So, the resource budget for each of those 10 years is unchanged. I mentioned earlier that we've got these rent-free periods in the first full year of the lease, so our cash requirement is lower the first year; it'll be higher the next year. The costs of the lease remain the same for the lifetime of the lease."*[194]

## Cyfalaf

**208.** Mae Archwilio Cymru yn nodi ei ofyniad cyfalaf ar gyfer nifer o flynyddoedd, o 2023-24 i 2027-28. Mae Archwilio Cymru yn awgrymu bod ei fuddsoddiad TGCh bellach wedi symud tuag at drefniadau trwydded neu wasanaeth blynyddol ac felly nad yw'n rhagweld y bydd angen buddsoddiad cyfalaf mor sylweddol.

**209.** Mae Archwilio Cymru yn cynnig cyllid cyfalaf £310,000 ar gyfer 2024-25. Rhennir hyn rhwng £200,000 ar gyfer Rhaglen Newid Archwilio Cymru a £110,000 ar gyfer ei strategaeth TGCh.

**210.** Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn rhoi dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario.[195] Wrth ymateb, dywedodd Archwilio Cymru y canlynol:

> *"Mae'r cyllid ar gyfer gweddill ein rhaglen gyfalaf dreigl 5 mlynedd yn ddangosol ar hyn o bryd, a bydd mwy o fanylion yn*

[193] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 4
[194] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 86
[195] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022, argymhelliad 18

> *cael eu darparu wrth i ni weithio drwy'r cynllun cyflenwi ar gyfer ein strategaeth yn Amcangyfrifon y dyfodol."*[196]

**211.** Mae Archwilio Cymru wedi darparu lefel gymaradwy o wybodaeth am gyfalaf yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2024-25 fel y gwnaeth yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2023-24. Pan ofynnodd y Pwyllgor iddo egluro sut y byddai'r cyllid cyfalaf o £310,000 y gofynnir amdano yn ei Amcangyfrif yn cael ei ddyrannu, atebodd yr Archwilydd Cyffredinol gan ddweud y canlynol:

> *"... of that £310,000, about £110,000 will be our information and communications technology programme and the vast majority of that being routine replacement of laptops on a rolling basis. The remaining £200,000—we have an extremely small capital budget—is our assessment of what is reasonable to do: some further work on the estate, some of the systems development that we have in mind."*[197]

**212.** Mewn perthynas â'i Raglen Newid, mae Archwilio Cymru yn pennu dau brosiect yn ei Amcangyfrif. Mae'r rhain yn ymwneud â "gweithleoedd y dyfodol" ac "Ein Strategaeth Ddigidol".[198]

**213.** Gyda'i Strategaeth Ddigidol, mae Archwilio Cymru yn bwriadu buddsoddi yn y canlynol:

- cwblhau'r broses o ddatblygu meddalwedd platfform archwilio newydd ar gyfer ein gwaith archwilio Ariannol a Pherfformiad;
- datblygiad parhaus y wefan;
- gwelliannau i systemau gwybodaeth rheoli.

**214.** O ran ei weithleoedd yn y dyfodol, mae Archwilio Cymru yn datgan mai hwn a fu ei "[b]rosiect newid mwyaf arwyddocaol hyd yn hyn".[199] Yn dilyn adleoli swyddfeydd yng Nghaerdydd a gogledd Cymru, bydd Archwilio Cymru yn adolygu ei adeiladau ym Mhenllergaer yn 2024-25. Mae'n dweud y gall hyn arwain at Amcangyfrif Atodol at ddibenion Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 yn unig.

[196] Ymateb Archwilio Cymru i waith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022
[197] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 90
[198] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 20
[199] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 20

**215.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar, ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn, gan ddweud y canlynol:

> *"Penllergaer is the final part of our estates review and we'll be looking to board to make a decision as to what to do about our west Wales accommodation next springtime. That would allow around about a year before the move would actually have to happen. So, we'd either have to move out of Penllergaer by March 2025 or make a decision to extend, renew, that lease."*[200]

**216.** Aeth ymhellach i ddweud y canlynol:

> *"Nearer the time, we'll be looking at whether or not we would need additional funding for that. There is that IFRS 16 adjustment that would certainly be necessary to account for such a move, but anything that we did is likely to be on the sort of scale of what happened in north Wales, which was relatively small, rather than what we saw in Cardiff, which was more substantial."*[201]

## Cynllun Ffioedd

**217.** Mae tua 66 y cant o wariant Archwilio Cymru yn cael ei ariannu drwy ffioedd. Mae Archwilio Cymru wedi darparu Cynllun Ffioedd Drafft ochr yn ochr â'i Amcangyfrif[202] ac mae'n cynnig cynnydd cyfartalog 6.4 y cant i'w gyfraddau ffioedd. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd ffioedd yn 2023-24, sef 4.8 y cant.[203]

**218.** Mae Archwilio Cymru yn datgan bod angen iddo "gydnabod pwysau costau byw ar staff ac rydym wedi gwneud darpariaethau ar gyfer codiadau cyflog yn unol â gweddill y sector cyhoeddus". Mae hefyd yn amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer cynnydd sy'n gysylltiedig â chyfraniadau'r cyflogwyr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'n dweud ei fod yn parhau i "fuddsoddi'n sylweddol"[204] mewn ansawdd archwilio wrth ymateb i adolygiadau diweddar y DU gyfan o safonau archwilio a safonau proffesiynol newydd.

**219.** Ymgynghorodd Archwilio Cymru â'r holl gyrff archwiliedig a rhanddeiliaid eraill ar ei gyfraddau ffioedd arfaethedig a'i raddfeydd ffioedd ar gyfer 2024-25, ym mis Medi 2023. Cafodd 18 ymateb. Mae Archwilio Cymru yn nodi bod cyrff

[200] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 92
[201] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 93
[202] Cynllun Ffioedd Drafft 2024-25
[203] Cynllun Ffioedd 2023-24
[204] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 35

archwiliedig yn tynnu sylw eu bod yn wynebu pwysau costau tebyg heb gynnydd cysylltiedig mewn cyllid. Roedd rhai hefyd yn gofyn a fyddai gostyngiad mewn ffioedd ar ôl gweithredu'r safon archwilio newydd. Ar y pwynt hwn, clywodd y Pwyllgor y canlynol:

> *"… the board took a decision to increase our savings target from £260,000 to £400,000. That would have reduced the increase, but we've just talked about that increase in employer pension contributions of £90,000 that we've had to account for, so this increase in savings target has meant that we haven't had to increase fees any more, but we've had to retain them at that originally proposed rate."*[205]

**220.** Mae'r Cynllun Ffioedd Drafft yn nodi y daeth archwiliadau ar gyfer cyfrifon i ben ar 31 Mawrth 2023 ac y bydd y blynyddoedd dilynol yn cael eu cynnal o dan safon archwilio ddiwygiedig (Safon Ryngwladol ar Archwilio 315, "Nodi ac Asesu Risgiau Camddatgan Perthnasol"), fel y nodwyd yng Nghynllun Ffioedd Archwilio Cymru ar gyfer 2023-24.[206] Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Mae'r safon ddiwygiedig wedi cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar y modd y mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwilio cyffredinol."*[207]

**221.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar, clywodd y Pwyllgor am effaith y safonau archwilio newydd. Datganodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio y canlynol:

> *"… we increased the costs of our audit work last year to take account of the new auditing standard, which required a higher skill mix, and therefore, the audit itself was more expensive. Our experience now that we've started to implement this revised standard has been that our estimate was pretty right, actually—we weren't far off. There are some cases where the cost of the audit has been more than we estimated; there are equally some audits where there will be a refund to the audited body because we were able to bring the audit in under the projected cost as well."*[208]

[205] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 111
[206] Cynllun Ffioedd Drafft 2024-25
[207] Cynllun Ffioedd Drafft 2024-25
[208] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 113

**222.** Pan ofynnwyd iddi am y gwerthusiad parhaus o'r Cynllun Ffioedd, ymhelaethodd, gan ddweud y canlynol:

> *"... we're still taking stock of this year, we're going to keep the audit approach as it is next year... but, as part of that, there may be some efficiencies because it's the second year that the teams are doing this, so, obviously, there's learning there as well. Of course, the beauty of the regime that we're in is that should we come in under the estimated cost, we have to refund that additional money to the audited bodies. So, I don't anticipate any huge changes for 2024-25 in terms of cost, but we are still keeping a watching brief, to the extent that if we come in under, we always return that money to the audited body."*[209]

## Barn y Pwyllgor

**223.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Archwilio Cymru wedi datblygu ei gynigion cyllideb ar gyfer 2024-25 mewn ffordd sy'n cydnabod asesiad y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o lefel y cyllid sydd ar gael i gyrff a ariennir yn gyhoeddus, o gofio'r pwysau ar gyllid cyhoeddus. Rydym felly yn dod i'r casgliad bod Amcangyfrif 2024-25 yn rhesymol ac yn gymesur.

**224.** Fodd bynnag, yn dilyn y gwaith craffu a wnaeth y llynedd,[210] roedd y Pwyllgor yn glir yn ei argymhellion bod Archwilio Cymru yn ystyried gwella'r ffordd y mae'n cyflwyno ei Amcangyfrif at ddibenion eglurder a thryloywder. Mae ar y Pwyllgor angen manylder o ran y cynnydd y gofynnir amdano flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran arian parod ac adnoddau, ond mae'r cyflwyniad wedi bod yn heriol eto eleni. Er bod y Pwyllgor yn derbyn barn yr Archwilydd Cyffredinol am lefel y cynnydd, mae'n glir bod lefel anfoddhaol o ddehongli yn y ffigurau cyffredinol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod model cyllido Archwilio Cymru yn wahanol i fodel cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol, a bod ei incwm ffioedd yn cyflwyno cymhlethdodau ychwanegol yn y ffordd y cyflwynir yr Amcangyfrif, ond mae'n siomedig nad yw'r argymhellion a gyflwynodd y Pwyllgor y llynedd wedi arwain at gyflwyniad cliriach eleni. O ganlyniad, gofynnwn i Archwilio Cymru ddarparu mwy o dryloywder yn y dadansoddiad o'i gostau a'i arbedion ym mhob un o'i feysydd cyllideb, ac i hyn fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ffigurau y mae'n eu darparu wrth ofyn am ei ofynion arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru.

---

[209] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2023, paragraff 114
[210] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022, argymhellion 11, 12 a 18

**225.** Lle y gellid cael arbedion mewn llinellau cyllideb, neu ar gyfer eitemau nad oes arnynt angen cyllid mwyach, dylai Archwilio Cymru ddangos y gostyngiadau hyn ar wahân i gynnydd arfaethedig mewn cyllid ar gyfer llinellau cyllideb eraill. Dylai fod yn glir i'r Pwyllgor lle y mae Archwilio Cymru yn cynnig ailddyrannu cyllid neu lle y mae costau eitem yn cael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau rywle arall yn y gyllideb. Dylid gwneud hyn yn benodol ar gyfer elfennau Cronfa Gyfunol Cymru o gyllid Archwilio Cymru, a dylai fod yn syml i ddarllenwyr yr Amcangyfrif a'r wybodaeth ategol nodi newidiadau yn yr elfennau a ariennir drwy Gronfa Gyfunol Cymru o gyllideb Archwilio Cymru ar draws llinellau cyllideb. Mae'n rhaid i'r Amcangyfrif hefyd fod yn glir a yw newidiadau sy'n gysylltiedig â chostau untro neu gostau amser cyfyngedig yn effeithio ar gynnydd neu ostyngiadau yn y cyllid y gofynnir amdano, a hynny mewn termau arian parod ac adnoddau.

**226.** Mae'r diffyg eglurder ynghylch yr union gyllid y gofynnir amdano'n golygu bod y ffigurau ar gyfer newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn agored i lefel o ddehongli. Mae hyn, yn ei dro, yn cyflwyno elfen o ansicrwydd ynghylch lefel y newid y gofynnir amdano pan wneir cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn golygu bod y Pwyllgor yn treulio llawer o'i amser yn craffu ar gyflwyniad cyffredinol yr Amcangyfrif, yn hytrach na'r Amcangyfrif ei hun. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am yr esboniadau a ddarparwyd yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar, a roddodd rywfaint o eglurhad, ond mae darparu'r lefel hon o fanylder yn nogfen yr Amcangyfrif neu yn y wybodaeth ategol yn bwysig ar gyfer tryloywder ehangach, yn ogystal â chynorthwyo eraill sy'n dymuno edrych ar yr Amcangyfrif.

**227.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu, yn enwedig mewn perthynas â'r taliad untro sy'n gysylltiedig â chostau dadfeiliadau ar gyfer 2023-24, y gallai Archwilio Cymru fod yn gliriach yn y ffordd y mae'n dangos symudiadau mewn cyfalaf gweithio a'i effaith ar lefel gyffredinol y cynnydd arian parod a ddangosir yn yr Amcangyfrif. Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi'r esboniad ynghylch y symudiadau £200,000 mewn cyfalaf gweithio ac yn cydnabod yr esboniad ei bod yn amhosibl rhagweld ar ddechrau'r flwyddyn pa symudiadau fydd mewn dyledwyr, credydwyr a darpariaethau. Er mwyn helpu i ddeall sut y mae'r elfen hon o'r gyllideb yn cael ei defnyddio, mae'r Pwyllgor felly'n gofyn i wybodaeth hanesyddol gael ei rhoi am alldro'r gyllideb hon i alluogi rhywfaint o gyd-destun ynghylch yr amrywioldeb yn y gofyniad.

**228.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Archwilio Cymru wedi rhoi gwybodaeth am ei fuddsoddiad cyfalaf hyd at 2027-28. Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cais cyfalaf ar gyfer 2024-25, nid yw cytundeb ar yr Amcangyfrif hwn yn gytundeb ar geisiadau cyfalaf yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael mwy o fanylion

am y cyfalaf £310,000 a ddyrannwyd ar gyfer a sut y mae hyn wedi'i ddyrannu i brosiectau unigol.

**229.** Nid yw'r Pwyllgor yn glir ynghylch dyraniad arian parod “oddeutu £100,000”[211] mewn cyllid sy'n gysylltiedig â chyfnod di-rent ar gyfer ei swyddfa yng Nghaerdydd yn 2024-25. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am sut y mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn awgrymu yr adlewyrchir cyfanswm cost y brydles dros ddeng mlynedd yn y gyllideb adnoddau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd na fydd hyn yn arwain at gynnydd mewn arian parod pan ddaw'r cyfnod di-rent i ben.

**230.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwaith Archwilio Cymru i gyflawni newidiadau mewn perthynas â'i Lwfans Teithio. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai 2024-25 yw'r flwyddyn gyntaf ar ôl ad-dalu'r cyllid a ddefnyddiwyd fel rhan o weithredu'r newidiadau hynny. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn adeg briodol i fyfyrio ar y newid a deall yr hyn y mae wedi’i gyflawni yng nghyd-destun disgwyliadau Archwilio Cymru pan gychwynnodd y newid hwnnw.

**231.** Mae'r Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r heriau parhaus y mae Archwilio Cymru yn eu hwynebu ynghylch recriwtio a chadw staff ac yn adleisio ein sylwadau cynharach yn cydnabod yr effaith negyddol y mae staff yn gadael i fynd i'r sector preifat a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn ei chael ar y sefydliad. Mae'n cefnogi ei gynigion i roi dyfarniad cyflog i staff sy'n ymwneud â “diffyg [cyflog] dros y ddwy flynedd ddiwethaf”,[212] yn ogystal â chynnydd amcangyfrifedig 5 y cant yn 2024-25 a chynnydd £900 o fis Ebrill 2024 i bob pwynt cyflog. Rydym hefyd yn cydnabod bod Archwilio Cymru yn dweud ei fod yn cynnig y cynnydd hwn mewn cyllid i ddod â chyflogau yn unol â chyrff eraill y sector cyhoeddus ac i “atal staff rhag ymadael i rannau o’r sector cyhoeddus lle mae’r cyflog yn well ac i’r sector preifat”. Hoffai’r Pwyllgor wybod sut y mae'r cyllid sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog yn cael ei ddefnyddio ac a fydd yn cael ei dargedu at raddau a rolau penodol neu ledled y sefydliad. Ar ben hynny, byddem yn awyddus i gael diweddariad ar drafodaethau rhwng Archwilio Cymru, Undebau Llafur a chyrff adolygu cyflogau arbenigol ar y mater hwn, a manylion ynghylch sut y mae wedi dod i'w benderfyniad.

**232.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am lefelau staff mwy profiadol sy'n gadael y sefydliad a bydd yn awyddus i ddeall a yw'r dyfarniadau cyflog a gynigir yn yr Amcangyfrif yn arwain at effaith gadarnhaol ar drosiant staff. Yn y cyfamser, mae’n galonogol clywed y camau y mae Archwilio Cymru yn eu cymryd i liniaru rhai o'r

[211] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 16
[212] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 6

pwysau hyn drwy fuddsoddi ac ehangu ei gynllun hyfforddeion. Hoffai'r Pwyllgor hefyd wybod mwy am y camau sy'n cael eu cymryd i gadw staff newydd gymhwyso.

**233.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd arfaethedig yn ffioedd Archwilio Cymru ar gyfer 2024-25 o ganlyniad i gyflwyno safonau archwilio newydd ac mae'n galonogol clywed bod ei amcangyfrif ar gyfer y refeniw hwn y llynedd yn gymharol gywir. Serch hynny, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am unrhyw werthusiad parhaus y mae Archwilio Cymru yn ei wneud o'i gynllun ffioedd.

**234.** Nodwn hefyd y gall gwersi a ddysgwyd yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu safonau archwilio newydd arwain at rai arbedion effeithlonrwydd. Rydym hefyd yn croesawu, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013,[213] caiff cyllid ei ddychwelyd i'r corff archwiliedig, pan fydd gwaith archwilio wedi'i gwblhau dan ei gost ragamcanol

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn newid cyflwyniad Amcangyfrifon yn y dyfodol er mwyn egluro cyfanswm gwerth cyllid Cronfa Gyfunol Cymru a gwerth newidiadau i'r cyllid hwnnw drwy wneud y canlynol:

- rhoi manylion am gynnydd a gostyngiadau mewn llinellau cyllideb ar wahân;
- pennu'r maes cyllideb y mae newidiadau'n ymwneud ag ef a'r rhesymau dros y newid;
- egluro'r rhaniad rhwng y gwaith a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru a'r gwaith a ariennir o ffioedd.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi gwybodaeth am y £522,000 ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod yn Arddangosyn 1 o'i wybodaeth ategol ac mae'n cynnwys dadansoddiad o'r ffigur hwn yn elfennau cyfansoddol o'i Amcangyfrif.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau bod cyllid ar gyfer dadfeiliadau yn 2023-24 yn daliad untro a'i fod yn rhoi rhagor o wybodaeth am ryngweithiad y newid o flwyddyn i flwyddyn â symudiadau mewn cyfalaf gweithio a'r newid cyffredinol yn y newid o flwyddyn i flwyddyn i gyfanswm

[213] Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

y cyllid sydd i'w ddarparu o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gyfeirio'n benodol at y tabl "Cyllideb refeniw 2024-25"[214] yn yr atodiadau i'w wybodaeth ategol.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cynnwys rhagor o wybodaeth am symudiadau mewn cyfalaf gweithio mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol, gan gynnwys nodi eu diben a'r hyn y mae pob symudiad yn ymwneud ag ef.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2024-25 a'i fod hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylion ym mhob Amcangyfrif yn y dyfodol.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y darperir rhagor o wybodaeth i esbonio sut y mae arian parod sy'n gysylltiedig â'r cyfnod di-rent ar gyfer ei swyddfa newydd yng Nghaerdydd yn cael ei ddefnyddio yn 2024-25, ac i roi sicrwydd na fydd cais am gynnydd mewn arian parod sy'n gysylltiedig â'r cyfnod di-rent yn dod i ben.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu gwybodaeth am gostau a buddion terfynol y newidiadau i'w Lwfans Teithio, gan gynnwys cyfanswm costau gweithredu'r newidiadau; y costau/arbedion sy'n gysylltiedig â threfniadau adnewyddu; a'r costau/arbedion sy'n gysylltiedig â newidiadau cysylltiedig eraill megis codiad yng nghyflogau staff.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn parhau i geisio ffyrdd o reoli'r codiadau cyflog y mae'n cynnig eu dyfarnu i staff o fewn ei gyllideb bresennol.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y canlynol:

- sut y bydd y cyllid sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog staff yn cael ei ddefnyddio ar draws graddau;
- effaith gyllidebol penderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyflogau staff;
- ymgyngoriadau sy'n cael eu cynnal ag Undebau Llafur a chyrff adolygu cyflogau arbenigol;
- effaith fwriadedig y dyfarniadau cyflog ar drosiant staff.

[214] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-2025, Tudalen 31

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ar y cynllun hyfforddeion estynedig, gan gynnwys ei gostau cysylltiedig, a gwybodaeth am gyfran y staff newydd gymhwyso sy'n aros yn y sefydliad.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd ar sut y mae'n gwerthuso effaith ei godiadau ffioedd sy'n gysylltiedig â'i safonau archwilio newydd.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **20 Medi 2023** | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol** Archwilio Cymru<br>**Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio,** Archwilio Cymru |
| **9 Tachwedd 2023** | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol** Archwilio Cymru<br>**Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio,** Archwilio Cymru |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025

Hydref 2023

Wedi ei baratoi ar y cyd a'i osod gerbron y Senedd dan Adran 20(1) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**Dr Kathryn Chamberlain**
Cadeirydd
Archwilio Cymru

**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati ar y cyd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Yn unol ag Adran 20 y Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau y mae ar yr Archwilydd Cyffredinol eu hangen i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif sy'n briodol yn ei dyb ef, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiad oni bai:

- Yr ymgynghorwyd â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- bod unrhyw sylwadau a wnaed gan y naill neu'r llall wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Bob blwyddyn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a thaliadau sydd i'w gwneud i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau sydd i'w cynnwys mewn cysylltiad â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rhagair 4

Cwmpas y Gyllideb 2024–25 6

# Rhagair

Mae Archwilio Cymru'n bodoli i roi hyder i'r Senedd a phobl Cymru mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n uchel ac sy'n atebol. Mae'n darparu tryloywder ac atebolrwydd i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae'n darparu gwybodaeth ariannol gywir a dibynadwy i gyrff cyhoeddus fel y gallent gynllunio a rheoli eu gwasanaethau a'u cyllid yn effeithiol.

Mae ein gwaith gwerth am arian yn hanfodol i atebolrwydd seneddol cadarn drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym yn archwilio cyfrifon a threfniadau llywodraethu dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli, o Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, drwy bron pob maes y darperir gwasanaethau cyhoeddus ynddo.

Mae archwiliad cyhoeddus yn rhoi asesiad annibynnol i'r Senedd, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd o'r defnydd a'r rheolaeth o arian cyhoeddus a rhybudd cynnar o broblemau. Pan fo ansawdd neu amseroldeb archwilio yn lleihau, mae'r risgiau o wastraff, twyll a chamreoli yn cynyddu.

Noda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yr heriau ar gyfer gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei llythyr ar 12 Gorffennaf 2023 – gan nodi mai dim ond 1.4% yn uwch mewn termau arian parod yw dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant ar gyfer 2024-25 nag oedd ar gyfer 2023–24.

Rydym yn cydnabod y pwysau hwn ar gyllid cyhoeddus. Yn wir, y pwysau hynny sy'n gwneud gwaith Archwilio Cymru yn fwy hanfodol fyth. Ni fu'r angen am werth am arian o bob punt o wariant cyhoeddus, ac asesiad amserol dibynadwy o gyflwr rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu yn sector cyhoeddus Cymru, erioed yn fwy. Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yw egluro'n glir i'r Senedd beth sydd ei angen i ddarparu hynny drwy swyddfa archwilio gyhoeddus gref, gynaliadwy ac annibynnol. Heb swyddfa o'r fath, mae'r risg o fethu â gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau prin hynny yn cynyddu'n fawr. Ac mae'r gost i'r pwrs cyhoeddus am y gwendidau sy'n codi'n gyflym o ganlyniad, lawer yn fwy na'r gost o gynnal trefn archwilio gyhoeddus o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol. Mae cyfanswm y gost o ddarparu sicrwydd a mewnwelediad annibynnol Archwilio Cymru ychydig dros un geiniog am bob £10 sy'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Mae'r Amcangyfrif hwn yn adlewyrchu'r angen am fuddsoddiad mewn recriwtio, hyfforddi a datblygu'r staff sydd â'r cymwysterau proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor Archwilio Cymru. Mae hefyd yn ceisio cyllid i fynd i'r afael â phwysau mwy uniongyrchol ac acíwt sy'n bygwth ein gallu i gyflawni disgwyliadau'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r heriau recriwtio, cadw a morâl sy'n deillio o godiadau cyflog islaw yr hyn a welwyd yng ngweddill y sector cyhoeddus dros y ddwy flynedd ddiwethaf; a'r gystadleuaeth ymosodol am staff yr ydym yn ei hwynebu o'r sector preifat, yn Lloegr yn bennaf.

Rydym yn llwyr ymwybodol o'n cyfrifoldeb tuag at rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godir gennym, ar yr amod nad yw'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei ddarparu. Er mwyn helpu i wrthbwyso costau staff cynyddol, rydym yn gwneud penderfyniadau anodd i leihau ein gwariant nad yw ar staff. Rydym wedi symud i swyddfeydd llai a rhatach yn ne a gogledd Cymru, lleihau ein costau teithio a'n costau cysylltiedig yn sylweddol, a dileu lwfansau ariannol yr oeddem yn arfer eu talu i'r staff. Trwy ein Hadolygiad Cynaliadwyedd Ariannol, mae gennym ddull sefydledig i herio ein model gweithredu ac i nodi unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd. Ar gyfer 2024–25, unwaith eto, rydym wedi gosod targedau arbedion heriol o ran rheoli swyddi staff gwag a meysydd gwariant eraill.

Gan ystyried hyn i gyd, mae ein Hamcangyfrif yn caniatáu cynnydd o 5.9% yn ein galwad gyffredinol ar Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer Archwilio Cymru. Caniateir cynnydd cyfartalog o 6.4% yn ein cyfraddau ffioedd ar gyfer y Cynllun Ffioedd drafft a atodir wrth yr Amcangyfrif.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022–23 yn nodi ein cofnod o'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Ebrill eleni, gwnaethom gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023–24 ger bron y Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer 2024–25 ac yn darparu gofynion cyllid dangosol hyd at 2028–29. Cyflwynir ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024–25 gerbron y Senedd cyn mis Mawrth 2024.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda'r Pwyllgor Cyllid maes o law.



**Dr Kathryn Chamberlain**
Cadeirydd,
Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Cwmpas y Gyllideb 2024–25

## Gofynion cyllideb amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025

1 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

2 O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r canlynol:

- swm yr adnoddau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- swm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y ceir eu cadw yn hytrach na'u talu i Gronfa Gyfunol Cymru;
- y swm y ceir ei dalu allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Caiff y gofynion hyn, y mae amrywioldeb ffrydiau incwm yn golygu na allant ond bod yn amcangyfrifon eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

4 Nodir manylion sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni archwiliad cyhoeddus yng Nghymru yn 2024–25 yn ein gwybodaeth ategol.

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllidebol 2024–25**

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: | |
| • Refeniw | 9,149 |
| • Cyfalaf | 310 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol ac adennill costau a ysgwyddir ar gyfer trydydd parti – y cyfan i'w ddefnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 17,476 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 9,127 |

5 Mae **Arddangosyn 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025.

**Arddangosyn 2: cysoni'r angen am adnoddau â'r angen i ddefnyddio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru**

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 9,459 |
| Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant | (280) |
| Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant a llog Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 | (356) |
| Taliadau rhent ar brydlesi | 104 |
| Addasiad nad yw'n arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio | 200 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | 9,127 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.